

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:



Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Dylech ddechrau llenwi'r templed hwn ar ddechrau unrhyw brosiect mawr sy'n cynnwys defnyddio data personol neu os byddwch yn gwneud newid sylweddol i broses bresennol. Dylech integreiddio'r canlyniadau terfynol yng nghynllun eich prosiect. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl, gan osgoi jargon neu acronymau lle y bo'n bosibl

Manylion y rheolydd

Enw'r Heddlu	Heddlu De Cymru
Pwnc/Teitl yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data	Technoleg Adnabod Wyneb Bau Byw (LFR)
Enw'r cynghorydd ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data	Louise Voisey

Enw'r Prosiect	Technoleg Adnabod Wyneb Bau Byw
Perchennog Cyfrifol	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd
Maes Busnes/Adran	Yr Is-adran Gwasanaethau Digidol
Dyddiad gweithredu arfaethedig	
Rhif Cyfeirnod (<i>i'w bennu gan y system Rheoli Gwybodaeth</i>)	

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

Dylech gyfeirio at y canllawiau a'r dogfennau proses (hyperddolen) ar gyfer Asesu'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn eich helpu i gwblhau'r adrannau hyn.

Termau a Diffiniadau: Bydd i dermau mewn priflythrennau a ddefnyddir yn Asesiad Heddlu De Cymru o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw yr ystyr a roddir iddynt yn adran 3 o Ddogfen bolisi Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw oni chânt eu diffinio fel arall.

Cam 1: Nodau'r Prosiect a Gweithgarwch Prosesu

Esboniwch beth mae'r prosiect neu'r gweithgarwch prosesu yn ceisio ei gyflawni a pha fath o weithgarwch prosesu sydd dan sylw. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at ddogfennau eraill neu gysylltu â nhw

Adnabod wynebau byw yw'r Defnydd amser real o dechnoleg adnabod wynebau, sy'n cymharu ffrwd/ffrydiau camera byw o wynebau yn erbyn Rhestr Wyllo a bennwyd ymlaen llaw er mwyn dod o hyd i Bobl o Ddiddordeb drwy gynhyrchu Rhybudd pan nodir Cyfatebiad Posibl.

Gall technoleg adnabod wynebau byw fod yn adnodd plismona gwerthfawr sy'n helpu Heddluoedd i gadw'r cyhoedd yn ddiogel a chyflawni eu dyletswyddau plismona o dan y gyfraith gyffredin, sy'n cynnwys atal a chanfod troseddau, cadw trefn a dwyn troseddwy'r gerbron y llys.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau lle y gallai technoleg adnabod wynebau byw helpu Heddluoedd i gyflawni eu dibenion plismona:

- helpu i ddod o hyd i bobl y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau a'u harestio
- atal pobl a allai achosi niwed rhag dod i mewn i ardal (e.e. unigolion obsesiynol sy'n fygythiad, pobl sy'n destun gorchmynion gwahardd pêl-droed)
- helpu i ddod o hyd i bobl y mae cudd-wybodaeth amdanynt sy'n awgrymu bod risg y gallent achosi niwed iddyn nhw eu hunain neu i eraill (e.e., stelcwyr, terfysgwyr, unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu risg uwch, ac ati)
- cefnogi'r defnydd o dactegau plismona ataliol wedi'u targedu mewn ardaloedd lle mae cudd-wybodaeth yn awgrymu y gallai troseddau gael eu cyflawni

Mae gweithrediad technegol technoleg adnabod wynebau byw yn cynnwys y chwe cham canlynol:

Creu cronfa ddata o ddelweddau/defnyddio cronfa ddata o ddelweddau sy'n bodoli isoes: mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn gofyn am Restr Wyllo o ddelweddau cyfeirio y gellir cymharu delweddau o wynebau o'r ffrwd fideo â nhw. Er mwyn i

ddelweddau gael eu defnyddio at ddibenion adnabod wynebau byw, cânt eu prosesu fel bod 'nodweddion yr wyneb' sy'n gysylltiedig â'u testunau yn cael eu tynnu ohonynt a'u mynegi fel gwerthoedd rhifiadol (Templed Biometrig).

Mae Polisi Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn amlinellu ystyriaethau sy'n berthnasol i'r broses o lunio Rhestr Wyllo yn gyfreithlon gan gynnwys penderfynu pa unigolion a all fod ar Restr Wyllo a ffynonellau delweddau ar gyfer Rhestr Wyllo.

Caffael delweddau o wynebau: mae camera teledu cylch cyfyng (CCTV) yn tynnu lluniau digidol o ddelweddau o wynebau mewn amser real, gan gasglu delweddau wrth i unigolyn symud drwy'r Parth Adnabod a'u defnyddio fel ffrwd fyw. Mae lleoliad camerâu teledu cylch cyfyng ac, felly, y lleoliad a ddewisir i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn bwysig i'r defnydd cyfreithlon o dechnoleg adnabod wynebau byw. Mae Polisi a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn darparu ystyriaethau sy'n berthnasol i'r lleoliadau y gall Heddlu De Cymru eu dewis i leoli camerâu wrth eu defnyddio at ddibenion adnabod wynebau byw.

Canfod wynebau: Ar ôl i gamera teledu cylch cyfyng a ddefnyddir mewn cyd-destun byw recordio deunydd fideo, mae'r feddalwedd adnabod wynebau byw yn canfod wynebau dynol unigol.

Tynnu nodweddion: Gan gymryd yr wyneb a ganfuwyd, mae'r feddalwedd yn tynnu nodweddion yr wyneb o'r ddelwedd yn awtomatig, gan lunio'r Templed Biometrig.

Cymharu wynebau: Mae'r feddalwedd adnabod wynebau byw yn cymharu'r Templed Biometrig â'r rhai a ddelir ar y Rhestr Wyllo.

Paru: Pan gaiff nodweddion yr wyneb o ddwy ddelwedd eu cymharu, mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn cynhyrchu Sgôr Tebygrwydd. Dyma'r gwerth rhifiadol sy'n dangos pa mor debyg yw'r delweddau i'w gilydd, gyda sgôr uwch yn dynodi mwy o debygrwydd rhyngddynt. Pennir gwerth Trothwy er mwyn nodi pryd y bydd y feddalwedd adnabod wynebau byw yn cynhyrchu Rhybudd i ddangos bod Cyfatebiad Posibl wedi'i nodi. Bydd aelodau hyfforddedig o bersonél yr heddlu yn asesu'r Rhybuddion ac yn penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Fel hyn, mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn gweithio i helpu personél yr heddlu i adnabod pobl yn hytrach na gweithredu fel proses beiriannol annibynnol heb unrhyw fewnbwn gan ddefnyddwyr.

Y tu allan i'r cwmpas – Mae mathau eraill o dechnoleg adnabod wynebau nad yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â nhw. Mae hyn yn cynnwys Adnabod Wynebau Ôl-weithredol (RFR). Cyfeirir at adnabod wynebau ôl-weithredol hefyd fel ôl-ddigwyddiad yn aml, sy'n ymwneud â chwilio delweddau yn erbyn cronfa ddata nad yw'n digwydd mewn amser real. Amrywiolyn newydd o dechnoleg adnabod wynebau yw Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr ('Operator Initiated Facial Recognition' (OIFR)) lle mae swyddog yn tynnu llun o unigolyn gan ddefnyddio dyfais symudol ac yn ei gyflwyno er mwyn cynnal chwiliad ar unwaith. Mae hyn yn dal i fod yn gwbl wahanol i dechnoleg

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

adnabod wynebau byw am fod gweithredwr dynol wedi penderfynu cyflwyno Delwedd Chwilota benodol i'w dadansoddi ac mae hefyd y tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn.

Data personol: Amlinellwch pa gategoriâu o ddata personol a gaiff eu prosesu ac esboniwch pam mae pob un yn angenrheidiol er mwyn cyflawni nodau'r prosiect. *E.e. enwau, cyfeiriadau, dyddiadau geni, cofnodion troseddol, dynodyddion unigryw megis cyfeiriadau IP, enwau defnyddiwr, cyfeiriadau e-bost*

Caiff data personol sydd eisoes wedi'u prosesu gan yr heddlu eu prosesu ar y cyd â'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw gan gynnwys enw, dyddiad geni, cyfeiriad. Fodd bynnag, ni chaiff y manylion hyn eu cynnwys yn y Defnydd gwirioneddol a wneir o dechnoleg adnabod wynebau at ddibenion adnabod wynebau byw ond byddent yn cael eu prosesu petai Cyfatebiad Posibl yn cael ei nodi ac, felly, dylid eu hystyried y tu hwnt i gwmpas yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Bydd data personol am unigolion sydd i'w cynnwys ar y Rhestr Wyllo yn cynnwys enw, dyddiad geni, rhifau digwyddiad, ffotograff ac ati a gaiff eu prosesu at ddibenion cydnaws sut bynnag.

Data Categori Arbennig: dewiswch bob categori cymwys isod a gaiff ei brosesu

- Hil
- Tarddiad ethnig
- Safbwyntiau gwleidyddol
- Bywyd rhywiol
- Crefydd
- Credau athronyddol
- Aelodaeth o undeb llafur
- Data genetig
- Data biometrig
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Iechyd
- Dim

Gallai'r categorïau hyn o ddata gael eu prosesu fel rhan o weithgarwch adnabod wynebau byw er y caiff algorithmau eu datblygu er mwyn dileu neu leihau unrhyw duedd sy'n gysylltiedig â'r categorïau hyn fel rhan o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a rhaid i gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 allu cael ei dangos. Mae adran 149 yn nodi:

'A public authority must, in the exercise of its functions, have due regard to the need to:

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

- a. eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited by or under this Act
- b. advance equality of opportunity between persons who share a relevant protected characteristic and persons who do not share it
- c. foster good relations between persons who share a relevant protected characteristic and persons who do not share it.'

Testunau Data: Pa gategoriâu o destun data sydd dan sylw?

- Unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni trosedd neu eu bod ar fin cyflawni trosedd
- Unigolion sydd wedi'u dyfarnu'n euog o drosedd
- Unigolion sy'n ddioddefwyr trosedd neu a all fod yn ddioddefwyr trosedd
- Tystion neu unigolion eraill sydd â gwybodaeth am droseddau
- Plant neu unigolion sy'n agored i niwed
- Swyddogion neu staff yr heddlu (presennol a blaenorol)
- Arall

Os arall, rhowch ragor o fanylion isod:

Defnyddir y dechnoleg i gofnodi Templedi Biometrig unrhyw unigolion sy'n dod i mewn i faes gwelediad y camera mewn amser real. Felly, gallai croestoriad o'r cyhoedd, yn cynnwys pob categori, gael ei brosesu.

Caiff y Rhestr Wylïo ei llunio gan ddefnyddio delweddau a ddelir yn gyfreithlon yn seiliedig ar y meini prawf ar gyfer y Defnydd.

Mae'n bosibl y caiff data personol unigolion o dan 18 oed, plant o dan 13 oed, unigolion ag anabledd neu oedolion sy'n agored i niwed eu prosesu lle mae angen plismona ac y tybir bod gwneud hynny yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn dod o hyd i'r unigolion hyn a/neu eu diogelu.

Cam 2: Disgrifiwch y gwaith prosesu

Disgrifiwch natur y gwaith prosesu: Sut y byddwch yn casglu, yn storio ac yn dileu data? Beth yw ffynhonnell y data? A fyddwch yn rhannu data ag unrhyw un? Ystyriwch y broses o'r dechrau i'r diwedd a rhowch y manylion hyn ar gyfer pob cam o'r broses.

Os oes modd, dylech gynnwys/atodi diagram llif neu ffeithlun.

Pa fathau o weithgareddau prosesu y nodwyd eu bod yn risg uchel a fydd yn cael eu cynnal?

A fyddwch yn casglu gwybodaeth newydd am unigolion?

Mae gweithrediad technegol technoleg adnabod wynebau byw yn cynnwys y chwe cham canlynol:

(1) Creu cronfa ddata o ddelweddau/defnyddio cronfa ddata o ddelweddau sy'n bodoli eisoes: Mae rhaglen adnabod wynebau byw yn gofyn am gronfa ddata o ddelweddau o wynebau sy'n bodoli eisoes (y cyfeirir atynt yn yr achos hwn fel Rhestr Wyllo) y gellir cymharu

delweddau o wynebau a'r nodweddion biometrig a geir ynddynt â nhw. Er mwyn i ddelweddau o'r fath gael eu defnyddio at ddibenion adnabod wynebau byw, cânt eu prosesu fel bod "nodweddion yr wyneb" sy'n gysylltiedig â'u testunau yn cael eu tynnu ohonynt a'u mynegi fel gwerthoedd rhifiadol.

(2) Caffael delweddau o wynebau. Mae camera teledu cylch cyfyng (CCTV) yn tynnu lluniau digidol o ddelweddau o wynebau mewn amser real. Mae a wnelo'r achos hwn â'r sefyllfa lle y caiff delwedd sy'n symud ei recordio pan fydd unigolyn yn dod i mewn i faes gwelediad y camera, gan ddefnyddio ffrwd fyw.

(3) Canfod wynebau. Ar ôl i gamera teledu cylch cyfyng a ddefnyddir mewn cyd-destun byw recordio deunydd fideo, mae'r feddalwedd

- (a) yn canfod wynebau dynol ac wedyn
- (b) yn ynysu wynebau unigol.

(4) Tynnu nodweddion yr wyneb. Gan gymryd yr wynebau a gafodd eu nodi a'u hynysu drwy'r broses "canfod wynebau", mae'r feddalwedd yn tynnu nodweddion unigryw'r wyneb o'r ddelwedd o bob wyneb, gan lunio Templed Biometrig sy'n unigryw i'r ddelwedd honno.

(5) Cymharu wynebau. Mae'r feddalwedd technoleg adnabod wynebau yn cymharu nodweddion yr wyneb a dynnwyd â'r rhai a geir yn y delweddau o wynebau a ddelir ar y Rhestr Wyllo.

(6) Paru. Pan gaiff nodweddion yr wyneb o ddwy ddelwedd eu cymharu, mae'r feddalwedd technoleg adnabod wynebau yn cynhyrchu Sgôr Tebygrwydd. Pennir gwerth Trothwy er mwyn nodi pryd y bydd y feddalwedd yn dangos bod Cyfatebiad Posibl wedi'i nodi. Gall pennu'r gwerth hwn yn rhy isel beri risg o gael Cyfradd Rhybuddion Anwir uchel (h.y. canran y cyfatebiadau anghywir a nodwyd gan y feddalwedd) a gall ei bennu yn rhy uchel beri risg o gael Cyfradd Negyddol Anwir uchel.

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

Caiff gwybodaeth ychwanegol ei chynhyrchu hefyd ar ffurf metadata h.y. amser, dyddiad a lleoliad. Os bydd swyddog yn ymgysylltu ag unigolyn yn dilyn Cyfatebiad Posibl, efallai y caiff manylion eraill megis ei enw ei gofnodi. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dod o fewn cwmpas y gweithgarwch adnabod wynebau byw.

Rhestrau Gwyllo

Caiff y Rhestr Wyllo ei theilwra bob tro cyn Defnyddio'r dechnoleg ac mae'n rhaid i'r rhesymeg dros gyfansoddiad y Rhestr Wyllo fod yn seiliedig ar gudd-wybodaeth, gael ei chyfiawnhau a bod yn gymesur ac yn angenrheidiol, gyda natur y Rhestr Wyllo yn cael ei chofnodi bob amser cyn Defnyddio'r dechnoleg.

Caiff Delweddau'r Unigolyn a'r Templed Biometrig cysylltiedig eu dileu ar unwaith ar ôl Defnyddio'r dechnoleg ac o dan unrhyw amgylchiadau o fewn 24 awr.

Mae arbenigwyr ym maes preifatrwydd wedi codi pryderon y gallai unigolyn geisio gwneud ymholiadau ynghylch a yw wedi'i gynnwys ar Restr Wyllo y tu allan i'r cyfnod cadw o 24 awr. Felly, tybiwyd ei bod yn briodol gallu ail-lunio Rhestrau Gwyllo. Gellir gwneud hyn bellach drwy gronfa ddata 'ochr gefn' Niche RMS drwy gofnodi rhif enwol unigolyn a dynnwyd i Restr Wyllo ar gyfer unrhyw ddyddiad penodol.

Rhaid i'r meini prawf ar gyfer lluniadau o Restrau Gwyllo i'w defnyddio gyda thechnoleg adnabod wynebau byw gael eu cymeradwyo gan y Swyddog Awdurdodi ac ymwneud yn benodol ag ymgyrch neu amcan plismona diffiniedig. Rhaid i Restrau Gwyllo, ac unrhyw ddelweddau i'w cynnwys ar Restr Wyllo, gael eu cyfyngu hefyd i'r categorïau o ddelweddau a nodir yn nogfennau polisi'r Heddlu, sef delweddau o bobl:

- a. y mae'r llysoedd yn awyddus i'w dal; a/neu
- b. yr amheuir eu bod wedi cyflawni trosedd neu lle mae sail resymol dros amau bod yr unigolyn a ddangosir ar fin cyflawni trosedd neu lle mae sail resymol dros amau bod yr unigolyn a ddangosir yn cyflawni trosedd; a/neu
- c. sy'n ddarostyngedig i amodau mechnïaeth, gorchymyn llys neu gyfyngiad arall a fyddai'n cael ei dorri pe byddent yn yr ardal ar adeg y Defnydd o'r dechnoleg; a/neu
- d. sy'n unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu risg uwch; a/neu
- e. a allai achosi niwed iddyn nhw eu hunain neu i eraill.

Fel arfer, caiff delweddau eu mewnforio i'r rhaglen adnabod wynebau byw bob tro y Defnyddir y dechnoleg o NICHE RMS a Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC). Gall data hefyd gael eu darparu gan heddluoedd eraill ac asiantaethau sy'n gysylltiedig â gorfodi'r gyfraith, yn ogystal â'r cyhoedd. Pan gaiff delweddau sydd wedi dod o'r heddlu ac eithrio delweddau a dynnwyd yn y ddalfa eu hystyried i'w defnyddio, mae angen ystyried a ddylid cynnwys delweddau o'r fath. Mae ystyriaeth o'r fath yn gofyn am asesiad fesul achos. Gall ffactorau perthnasol yn yr asesiad hwnnw gynnwys y diben y mae'r heddlu yn dal delweddau o'r fath ar ei gyfer, unrhyw gyfyngiadau ar brosesu sydd ynghlwm wrth y delweddau, pwysigrwydd cynnwys delweddau o'r fath ar Restr Wyllo er mwyn cyflawni amcan plismona a chymesuredd defnyddio delweddau o'r fath ar gyfer Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw.

Lle y gellir gwneud hynny heb effeithio gormod ar berfformiad y rhaglen adnabod wynebau byw, dylai dogfennau polisi'r Heddlu ddarparu y dylai delweddau addas sydd wedi dod o'r heddlu gael eu ffafrio i'w cynnwys ar Restr Wyllo. Fodd bynnag, bydd adegau pan na fydd unrhyw ddelwedd yn cael ei dal gan yr Heddlu neu, os delir un, pan na fydd o ansawdd digonol nac yn ddigon diweddar i'w defnyddio at ddibenion adnabod wyneb. O dan yr amgylchiadau hyn, gellir ystyried cynnwys delwedd nad yw wedi dod o'r Heddlu.

Dim ond gyda chaniatâd y Swyddog Awdurdodi y dylid cynnwys delweddau nad ydynt wedi dod o'r Heddlu ar Restr Wyllo. Dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â'r ddelwedd ac, yn arbennig, y ffactorau uchod.

Caiff y Rhestr Wyllo ei llunio gan ddefnyddio ffeil CSV a gaiff ei chadw mewn ffolder diogel ym mharth TGCh yr heddlu. Caiff cynnwys y ffolder ei dynnu allan i mewn i'r rhaglen adnabod wynebau byw cyn y Defnydd gan ddefnyddio gyriant USB wedi'i amgryptio.

Dylai dogfennau polisi'r Heddlu hefyd ddarparu bod yn rhaid i gyfansoddiad Rhestrau Gwyllo:

- a. fod yn seiliedig ar yr achos cudd-wybodaeth, cael ei adolygu bob amser cyn i'r dechnoleg gael ei Defnyddio er mwyn sicrhau bod pob delwedd yn bodloni'r meini prawf rheidrwydd a chymesuredd ar gyfer cynnwys delweddau, ac na ddylai cyfansoddiad y Rhestr Wyllo fod yn ormodol at ddiben defnyddio'r dechnoleg;
- b. cynnwys dim ond delweddau a ddelir yn gyfreithlon gan yr heddlu gan roi ystyriaeth hefyd i'r canlynol:
 - y sail gyfreithiol y cafwyd y ddelwedd oddi tani;
 - ffynhonnell y ddelwedd, yn arbennig pan gafwyd y ddelwedd o ffynhonnell sensitif neu ffynhonnell trydydd parti ac y gallai beryglu'r ffynhonnell honno neu amlygu'r ffynhonnell honno i risg
 - defnyddio delweddau dim ond os bydd pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau:
 - bod y ddelwedd yn ddelwedd o unigolyn y bwriedir iddi gael ei chynnwys ar Restr Wyllo benodol;
 - mai'r ddelwedd yw'r un fwyaf diweddar a/neu addas sydd ar gael i'r heddlu sydd o ansawdd priodol i'w chynnwys ar y Rhestr Wyllo. Rhaid ystyried y posibilrwydd y gallai'r rhaglen adnabod wynebau byw gynhyrchu Rhybudd petai delwedd hŷn yn cael ei chynnig i'w chynnwys lle y gallai nodweddion wyneb yr unigolyn fod wedi newid neu wedi heneiddio'n sylweddol ers i'r ddelwedd gael ei thynnu. Dylid mewnforio delweddau i'r rhaglen adnabod wynebau byw ar unwaith cyn Defnyddio'r dechnoleg ac o fewn 24 awr i ddechrau Defnyddio'r dechnoleg fan bellaf er mwyn sicrhau bod y Rhestr Wyllo yn gyfredol.

Dehongli categorïau Rhestrau Gwyllo

'Angen i'r heddlu gymryd camau pellach.' Bydd y term hwn yn adlewyrchu natur yr ymchwiliad troseddol sy'n mynd rhagddo. Pan fo'n gyfreithlon ac yn angenrheidiol gwneud hynny, gall gynnwys yr angen i arestio'r unigolyn er mwyn cynnal ymholiadau plismona pellach. Ar adegau eraill, efallai y bydd angen cadarnhau manylion gydag unigolyn, er enghraifft, er mwyn parhau ag ymchwiliad. Caiff camau gweithredu arfaethedig gan yr heddlu eu nodi a'u cofnodi cyn y penderfyniad i gynnwys delwedd ar Restr Wyllo a bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cyd-fynd â phwerau cyfreithlon yr heddlu.

'Unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu risg uwch.' Bydd y term hwn yn ddarostyngedig i ddiffiniad y Coleg Plismona o risg ganolig (neu uwch) a nodir yn yr Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar Unigolion Coll. Hynny yw asesir bod y risg o niwed i'r unigolyn dan sylw neu i'r cyhoedd yn debygol ond nid yn ddifrifol. Gall y niwed fod yn gymwys yn yr un modd i'r unigolyn dan sylw neu i unrhyw aelod arall o'r cyhoedd.

'Atal risg o niwed.' Caiff y term hwn ei lywio gan yr achos cudd-wybodaeth. Bydd angen hysbysu'r Swyddog Awdurdodi sut mae'r unigolyn yn peri risg o niwed a pham

- a. mae defnyddio technoleg adnabod wynebau byw er mwyn helpu i ddod o hyd i'w lleoliad yn angenrheidiol i reoli'r risg o niwed a nodwyd;
- b. mae angen i'r heddlu gymryd camau er mwyn rheoli'r risg o niwed

Bydd angen i'r ychwanegiad at y Rhestr Wyllo hefyd fod yn ymateb cymesur i'r angen i reoli'r risg o niwed. Bydd angen sail gyfreithiol o dan bŵer plismona o dan y gyfraith gyffredin neu bŵer cyfreithiol arall dros fynd i'r afael â'r risg o niwed yn y cyd-destun hwn. Gall 'niwed' gynnwys risg o niwed sy'n codi mewn perthynas â llesiant unigolyn a/neu niwed ariannol gan gynnwys o ganlyniad i dwyll neu fath arall o anonestrwydd.

Y Defnydd a wneir o Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw

Bydd y rhaglen adnabod wynebau byw yn llunio Templedi Biometrig o'r wynebau ar y Rhestr Wyllo. Bydd y templed hwn wedyn yn defnyddio ffrwd camera fyw i sganio wynebau unigolion mewn ardal ddynodedig gan lunio Templedi Biometrig o bob un i'w cymharu â'r rhai ar y Rhestr Wyllo.

Caiff gwybodaeth bersonol ei chasglu gan ddau gamera teledu cylch cyfyng sydd wedi'u cysylltu â'r gliniadur/gweinydd annibynnol. Nid yw'r gliniadur wedi'i gysylltu â seilwaith TGCh yr Heddlu a gellir ystyried ei fod yn ddatrysiad 'blwch du' (sef system sy'n annibynnol ar saerñaeth dechnegol bresennol Heddlu De Cymru. Mae'r rhaglen yn 'tynnu' wyneb o ddeunydd teledu cylch cyfyng (a elwir yn Ddelwedd Chwilota), yn llunio Templed Biometrig ac wedyn yn ei gymharu â Rhestr Wyllo ragddiffiniedig. Bydd Templed Biometrig wedi'i lunio ar gyfer pob Delwedd o Unigolyn ar y Rhestr Wyllo hefyd. Wrth wneud hynny, nid yw'r rhaglen yn cadw'r ffrwd teledu cylch cyfyng fyw, dim ond wyneb penodol os nodir Cyfatebiad Posibl â Delwedd o Unigolyn ochr yn ochr â ffrâm teledu cylch cyfyng ehangach y tynnwyd y Ddelwedd Chwilota ohoni.

Caiff y ffrwd teledu cylch cyfyng ei hun ei chadw. Mae'r gwaith prosesu hwn y tu hwnt i gwmpas yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

Ni fydd pawb sy'n cael ei recordio gan y teledu cylch cyfyng yn cael ei gofrestru ar y rhaglen. Rhaid i'r wyneb fod o 'ansawdd' digon da i'w gofrestru ar y rhaglen. Bydd y gyfradd gofrestru yn dibynnu ar sawl ffactor, y mae'r rhai pwysicaf yn eu plith yn cynnwys:

- dwysedd y dorf,
- symudiadau unigol,
- ongl yr wyneb,
- goleuo.

Y bwriad bob tro y Defnyddir y dechnoleg yw caniatáu i'r rhaglen adnabod wynebau byw gofrestru a phrosesu cynifer o unigolion â phosibl. Fodd bynnag, mae'n werth nodi na fydd gwaith prosesu nad yw'n cynhyrchu Rhybudd yn para'n hir ac y caiff y ddelwedd ei dileu am byth. Ni chaiff unrhyw wybodaeth ychwanegol ei phriodoli i ddelweddau o unigolion sydd wedi'u cofrestru ar y rhaglen adnabod wynebau byw. Mae'r rhaglen yn cynnwys swyddogaeth trywydd archwilio sy'n sicrhau na chaiff Delweddau Chwilota nad ydynt yn nodi Cyfatebiad Posibl â Delwedd o Unigolyn eu cadw ynddi. Caiff y Rhestr Wyllo ei llunio gan ddefnyddio ffeil CSV a gaiff ei chadw mewn ffolder diogel ym mharth TGCh yr heddlu. Caiff cynnwys y ffolder ei dynnu allan i mewn i'r rhaglen adnabod wynebau byw cyn y Defnydd gan ddefnyddio gyriant USB wedi'i amgryptio.

Caiff unrhyw Dempledi Biometrig nad ydynt yn nodi Cyfatebiad Posibl â'r rhai ar y Rhestr Wyllo eu dileu ar unwaith.

Pan nodir Cyfatebiad Posibl bydd hyn yn cynhyrchu Rhybudd a gaiff ei ddangos i Weithredwr y Rhaglen Adnabod Wynebau Byw.

Y cyfnod cadw hiraf a ganiateir ar gyfer delweddau sy'n Gyfatebiad Posibl a'r Templedi Biometrig cysylltiedig yw 24 awr, er bod y wybodaeth hon yn cael ei dileu ar unwaith ar ôl Defnyddio'r dechnoleg fel arfer.

Bydd gan yr Heddlu:

- a. Siart Llif â Chanllawiau ar Broses Awdurdodi Technoleg Adnabod Wynebau Byw neu ddogfen gyfatebol sy'n nodi'r camau penderfynu i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn glir
- b. Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw neu ddogfen gyfatebol a ddylai gynnwys manylion y canlynol:
 - ffactorau i'w hystyried sy'n ymwneud ag achos yr Heddlu dros ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw a'r blaenoriaethau plismona ar gyfer y dechnoleg honno
 - meini prawf ar gyfer Rhestrau Gwyllo a ffynonellau delweddau
 - canllawiau pan gynhyrchir Rhybudd, camau i'w cymryd yn dilyn Rhybudd, adnoddau ar gyfer Defnyddio'r dechnoleg er mwyn ymateb i Rybuddion a phwerau plismona swyddogion perthnasol
 - ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ble i Ddefnyddio'r dechnoleg a gosod camerâu

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

- trefniadau er mwyn sicrhau bod y Defnydd yn agored, gan gynnwys ystyriaethau ynglŷn ag unrhyw hysbysiad ymlaen llaw ac arwyddion
- cyfrifoldebau swyddogion a staff sy'n rhan o'r Defnydd
- cyfnodau cadw

Disgrifiwch gwmpas y gwaith prosesu: Faint o ddata y byddwch yn eu casglu ac yn eu defnyddio? Pa mor aml? Am ba hyd y byddwch yn eu cadw? Data faint o unigolion a gaiff eu cofnodi? Pa ardal ddaearyddol a gwmpesir?

Mae Defnydd Nodweddiadol o'r dechnoleg wedi arwain at Restrâu Gwylio sy'n cynnwys rhwng 500 a 700 o ddelweddau. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl rhoi niferoedd penodol gan y byddant yn amrywio yn ôl y Defnydd. Mae terfyn uchaf ar faint Rhestr Wyllo. Fodd bynnag, anaml yr eir dros y terfyn hwn.

Nid yw nifer yr unigolion y bydd eu hwynebau yn cael eu prosesu gan gamerâu adnabod wynebau byw yn hysbys ond mae'n debygol o fod yn fawr.

Cadw:

Templedi Biometrig – dim cyfatebiadau

Caiff unrhyw Dempledi Biometrig nad ydynt yn nodi Cyfatebiad Posibl â'r rhai ar y Rhestr Wyllo eu dileu ar unwaith.

Cyfatebiadau Posibl

Pan nodir Cyfatebiad Posibl bydd hyn yn cynhyrchu Rhybudd a gaiff ei ddangos i Weithredwr y Rhaglen Adnabod Wynebau Byw. Os nodir Cyfatebiad Posibl, caiff tair crynoddellwedd eu cadw yn y rhaglen ynghyd â'r metadata cysylltiedig. Y gyntaf yw'r ddelwedd o'r Unigolyn, yr ail yw'r wyneb a dynnwyd o'r deunydd teledu cylch cyfyng a'r drydedd yw'r ffrâm teledu cylch cyfyng y tynnwyd y Ddelwedd Chwilota ohoni.

Y cyfnod cadw hiraf a ganiateir ar gyfer delweddau sy'n Gyfatebiad Posibl a'r Templedi Biometrig cysylltiedig yw 24 awr er bod y wybodaeth hon yn cael ei dileu ar unwaith ar ôl Defnyddio'r dechnoleg fel arfer

Rhestrau Gwylio a metadata cysylltiedig

Cânt eu dileu ar unwaith ar ôl eu Defnyddio neu o fewn 24 awr fan bellaf

Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw a Logiau Ymgysylltu

Cânt eu cadw yn unol â chyfnodau cadw Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.

Caiff yr ardal ddaearyddol ei phennu gan ddiben y Defnydd. Fodd bynnag, y bwriad yw ffocysu technoleg adnabod wynebau byw yn agored dros leoliad neu ddigwyddiad penodol sydd wedi'i gyfyngu'n ddaearyddol sy'n berthnasol i ardal yr Heddlu.

Bydd y Swyddog Awdurdodi yn diffinio'r **dyddiad, yr amser, y lleoliad a'r cyfnod o amser** y mae'r Defnydd wedi'i awdurdodi ar eu cyfer yn seiliedig ar egwyddorion rheidrwydd a

chymesuredd wrth gyflawni nod plismona dilys, a gaiff eu llywio gan yr achos cudd-wybodaeth sy'n sail i'r Defnydd.

Er y gellir defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw mewn lleoliadau ledled Cymru, bydd unrhyw Ddefnydd o'r dechnoleg wedi'i gyfyngu i leoliad penodol gan ddefnyddio camerâu gwifredig sydd wedi'u cysylltu â'r rhaglen adnabod wynebaw byw. Bydd y lleoliadau a ddefnyddir yn seiliedig ar yr achos cudd-wybodaeth dros ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw, gofynion y rhaglen adnabod wynebaw byw ac ystyriaethau sy'n ymwneud â phreifatrwydd a all fod yn gymwys i ardal benodol (fel y'u hamlinellir yn fwy penodol ym Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru i Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebaw Byw a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebaw Byw. Mae'r rheolaethau hyn yn helpu'r cyhoedd a swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall technoleg adnabod wynebaw byw a rhagweld ble y gallai gael ei defnyddio.

Disgrifiwch gyd-destun y gwaith prosesu: beth yw natur eich perthynas â'r unigolion? Faint o reolaeth fydd ganddynt dros y ffordd y caiff eu data eu prosesu? A fyddent yn disgwyl i chi ddefnyddio eu data fel hyn?

A ydynt yn cynnwys plant neu grwpiau eraill sy'n agored i niwed? A oes pryderon neu heriau eisoes sy'n ymwneud â'r math hwn o waith prosesu neu ddiffygion diogelwch?

A yw'r gwaith prosesu yn newydd mewn unrhyw ffordd? A oes materion sy'n destun pryder i'r cyhoedd ar hyn o bryd y dylech eu hystyried?

Aelodau o'r cyhoedd

Yn ystod unrhyw ymgyrch blismona lle y caiff technoleg adnabod wynebaw byw ei defnyddio, rhaid i arwyddion sy'n tynnu sylw at y ffaith bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio gael eu gosod mewn manau amlwg ymlaen llaw y tu allan i'r Parth Adnabod.

Diben y mesurau hyn yw hysbysu aelodau o'r cyhoedd am bresenoldeb technoleg adnabod wynebaw byw a rhoi digon o amser iddynt arfer eu hawl i beidio â cherdded i mewn i'r Parth Adnabod.

Cyn i'r dechnoleg gael ei Defnyddio, defnyddir y cyfryngau cymdeithasol a gwefan yr Heddlu i gyhoeddi manylion y Defnydd.

Hefyd, fel arfer dylid cynnig taflen wybodaeth am y dechnoleg i unrhyw aelod o'r cyhoedd yr ymgysylltir ag ef fel rhan o ymgyrch lle mae technoleg adnabod wynebaw byw yn cael ei defnyddio. Dylid rhoi gwybodaeth gyswllt ar gyfer yr ymgyrch lle mae technoleg adnabod wynebaw byw yn cael ei defnyddio i unrhyw un y mae angen rhagor o wybodaeth arno am dechnoleg adnabod wynebaw.

Rhestrau Gwylio

Bydd y rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr wylio yn unigolion yr amheuir eu bod yn cyflawni troseddau ac y mae'r llysoedd a'r heddlu yn awyddus i'w dal; unigolion a all beri risg iddyn nhw eu hunain ac i eraill; ac unigolion a all fod yn agored i niwed.

Mae disgwyliad rhesymol y caiff gwybodaeth bersonol ei phrosesu er mwyn cyflawni dyletswyddau plismona gweithredol, gan gynnwys:

- Diogelu bywyd
- Cadw trefn
- Atal troseddau rhag cael eu cyflawni
- Dwyn troseddwyr gerbron y llys.

Pan fo'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni nod dilys ac yn unol â'r gyfraith. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi gael ei fodloni gan y camau a gymerwyd i sicrhau nad yw cyfansoddiad y Rhestr Wyllo yn ormodol a'i bod ond yn cynnwys yr unigolion hynny y mae angen i Heddlu De Cymru ddod o hyd iddynt gan ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw ar sail rheidrwydd yn unig.

Gall y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw ddileu delweddau o'r Rhestr Wyllo a bydd yn cofnodi gweithred o'r fath yn log y gweithredwr.

Plant/Grwpiau sy'n Agored i Niwed

Mae'n bosibl y caiff plant neu grwpiau sy'n agored i niwed eu prosesu. Fodd bynnag, os na fydd eu Templed Biometrig yn nodi Cyfatebiad Posibl, ni chaiff unrhyw fanylion eraill eu prosesu a chaiff y wybodaeth hon ei dileu ar unwaith. Pan nodir Cyfatebiad Posibl, caiff y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw ei Rybuddio a chynhelir rhagor o wiriadau â llaw er mwyn cadarnhau a yw'r unigolyn hwnnw ar y Rhestr Wyllo. Ni wneir unrhyw benderfyniadau awtomataidd fel rhan o'r broses.

Materion sy'n destun pryder

Cymesuredd a chyfreithlondeb – mae pryderon y bydd y Defnydd o'r dechnoleg yn cyfyngu ar hawl i breifatrwydd neu'n mynd yn groes i'r hawl honno neu'n atal aelodau o'r cyhoedd rhag arfer eu hawl i ryddid i ymgynnull a rhyddid mynegiant a roddir iddynt gan y Ddeddf Hawliau Dynol ac nad yw unrhyw achos o gyfyngu ar yr hawliau hyn yn unol â'r gyfraith. Hefyd, mae swm y data personol sy'n cael eu prosesu yn ormodol ac yn fympwyol. Gellir defnyddio technoleg adnabod wynebau byw lle y gallai fod yn fwy priodol defnyddio dulliau llai ymwthiol.

Mesurau diogelwch – mae pryderon nad oes digon o fesurau diogelwch mewn perthynas â'r Defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw.

Ymgripiad swyddogaethau – mae pryderon y caiff technoleg adnabod wynebau byw ei defnyddio i fonitro symudiadau a gweithredoedd y cyhoedd y tu hwnt i gwmpas Defnydd wedi'i dargedu neu y caiff ei defnyddio at ddibenion gwyliadwriaeth gudd.

Cadw – mae pryderon y caiff yr holl ddata a gesglir yn ystod Defnydd o'r dechnoleg eu cadw fel cudd-wybodaeth. Mae pryderon hefyd y gallai Rhybuddion Anwir arwain at gadw data am fwy o amser nag sydd ei angen.

Disgresiwn – Mae pryderon bod gan swyddogion ormod o ddisgresiwn o ran "pwyl" sy'n defnyddio'r dechnoleg a "ble" y caiff ei defnyddio.

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

Tuedd – mae pryderon y gall algorithm y feddalwedd gynnwys tuedd gynhenid o ran nodweddion gwarchoddedig hil, oedran a rhywedd. Nid yw'r mesur diogelwch dynol lle mae swyddog yn gwirio'r ddelwedd pan geir Cyfatebiad Posibl yn ddigonol i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Disgrifiwch ddibenion y gwaith prosesu: beth rydych am ei gyflawni drwy brosesu'r data hyn? A fydd unrhyw effaith ar yr unigolion y mae eu data yn cael eu prosesu?
Beth yw manteision y gwaith prosesu – i chi ac yn fwy cyffredinol?

Gall technoleg adnabod wynebaw byw fod yn adnodd plismona gwerthfawr sy'n helpu Heddluoedd i gadw'r cyhoedd yn ddiogel a chyflawni eu dyletswyddau plismona o dan y gyfraith gyffredin, sy'n cynnwys atal a chanfod troseddau, cadw trefn a dwyn troseddwy gerbron y llys.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau lle y gallai technoleg adnabod wynebaw byw helpu Heddluoedd i gyflawni eu dibenion

plismona:

- a. helpu i ddod o hyd i bobl y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau a'u harestio
- b. atal pobl a allai achosi niwed rhag dod i mewn i ardal (e.e. unigolion obsesiynol sy'n fygythiad, pobl sy'n destun gorchmynion gwahardd pêl-droed)
- c. helpu i ddod o hyd i bobl y mae cudd-wybodaeth amdanynt i awgrymu y gallent beri risg iddyn nhw eu hunain neu i eraill (e.e. stelcwyr, terfysgwyr, unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu risg uwch, ac ati)
- d. cefnogi'r defnydd o dactegau plismona ataliol wedi'u targedu mewn ardaloedd lle mae cudd-wybodaeth yn awgrymu y gallai troseddau gael eu cyflawni.

I'r rhai nad ydynt ar y Rhestr Wyllo sydd mewn ardal lle mae technoleg adnabod wynebaw byw yn cael ei defnyddio, ni fydd unrhyw effaith – ni fydd unrhyw ymwithio oni chynhyrchir Rhybudd, lle y bydd swyddog yn cymharu'r delweddau ac, os bydd angen, yn

gallu siarad â'r unigolyn a nodwyd. Mae hyn yn golygu y gallai llai o bobl gael eu stopio a'u chwilio. Mae'r arwyddion a'r wybodaeth o amgylch y lleoliad targed yn golygu y gall unigolion ddewis peidio â bod yn yr ardal lle mae'r dechnoleg adnabod wynebau byw yn cael ei defnyddio.

Mewn cyfnod o gyni cyllidol, dylai'r heriau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i droseddwr a'u harestio, yn gywir ddigon, gael eu herio a chyda chymorth technoleg, gellir defnyddio dulliau gwell a mwy cost-effeithiol o ddod â'r rhai yr amheuir eu bod wedi cyflawni troseddau gerbron y llys yn gyflym.

Cam 3: Ymgynghori

Ystyriwch sut i nodi rhanddeiliaid perthnasol ac ymgynghori â nhw: disgrifiwch pryd a sut y byddwch yn ceisio barn unigolion neu rhwch resymau pam nad yw'n briodol gwneud hynny. Pwy arall yn eich sefydliad y mae angen i chi ei gynnwys? A oes angen i chi ofyn i'ch proseswyr helpu? A ydych yn bwriadu ymgynghori ag arbenigwyr ym maes diogelwch gwybodaeth neu unrhyw arbenigwyr eraill?

Mae nifer o randdeiliaid wedi bod yn destun gweithgarwch ymgysylltu o ddechrau'r prosiect hwn, i ddechrau gan Heddlu De Cymru, er mwyn sicrhau dilysrwydd a thryloywder o ran preifatrwydd a'i effaith bosibl ar gymunedau. Ymgynghorwyd â'r canlynol eisoes ond mae'r rhestr yn parhau i fod yn organig ynghyd â'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ei hun wrth i'r Defnydd o'r dechnoleg aeddfedu a datblygu:

1. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cydgysylltu a chymorth ar ôl i'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data gael ei gwblhau yn ogystal â'r ychwanegedd sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth academaidd ffurfiol tra bydd y dechnoleg yn cael ei rhoi ar waith. Barn ar ddefnyddio technoleg Adnabod Wynebau Byw mewn manau cyhoeddus a pharti â diddordeb (*ar gais Edward Bridges*) v *Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2020] EWCA Civ 1058*. Yn 2019 comisiynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth adroddiad ar y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw at ddibenion gorfodi'r gyfraith lle y cafwyd y sylwadau canlynol gan aelodau o'r cyhoedd:

- nododd 82% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ei bod yn dderbyniol i'r heddlu ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw;
- roedd 72% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylid defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn barhaol mewn ardaloedd lle mae llawer o droseddau yn cael eu cyflawni;
- roedd 65% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod technoleg adnabod wynebau byw yn fesur diogelwch angenrheidiol i atal troseddau lefel isel;
- roedd 60% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ei bod yn dderbyniol prosesu wynebau pawb mewn torf hyd yn oed os mai'r diben yw dod o hyd i un unigolyn o ddiddordeb.

Mae'r cyhoedd yn parhau i fod o blaid defnyddio'r dechnoleg hyd yn oed petaent yn cael eu stopio gan yr heddlu o ganlyniad i dechnoleg adnabod wynebau byw yn eu paru (ar gam) â delwedd yn y system fel unigolyn o ddiddordeb. Roedd 58% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn ei bod yn dderbyniol cael eu stopio gan yr heddlu o dan amgylchiadau o'r fath tra bod 30% o'r farn ei bod yn annerbyniol.

2. Labordy Gwyddor a Thechnoleg Amddiffyn (DSTL) – Mae'n darparu canllawiau ar gaffael, profi a defnyddio'r Dechnoleg, ynghyd â chynghor ar ddogfennaeth academaidd sy'n ategu prawf cysyniad y cynnyrch. Mae'n dal i fod yn gyfaill beirniadol i'r prosiect.

3. Rhaglen Fiometrigr y Swyddfa Gartref – Canllawiau ychwanegol i ategu'r uchod gan arweinydd Rhaglen Fiometrigr y Swyddfa Gartref ar Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd.

4. Pwyllgor Moeseg Annibynnol Heddlu De Cymru – ymgysylltu'n gynnar ynglŷn â'r cysyniad o roi'r dechnoleg ar waith a'i ymgysylltiad â phreifatrwydd yn erbyn sicrhau cymunedau mwy diogel.

5. Yr Heddlu Metropolitaidd – Trafodaethau proffesiynol ynghylch gwersi a ddysgwyd o'r defnydd blaenorol o'r dechnoleg, yn enwedig Carnifal Notting Hill, er mwyn sefydlu model arfer gorau mewn heddluoedd.

6. Heddlu Caerlŷr – Trafodaethau proffesiynol ynghylch ei ddefnydd blaenorol o swyddogaeth adnabod amser araf wrth baratoi ar gyfer rhoi ein prosiect ar waith.

7. Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu – Trafodaeth a chynghor proffesiynol ynghylch datblygu'r prosiect yn ystod ei gamau a'r defnydd o luniau a dynnwyd yn y ddalfa.

8. Y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth/Comisiynydd Biometreg – Trafodaeth broffesiynol ynghylch y cynigion ar gyfer y prosiect a rhoi'r prosiect ar waith. Mae Cod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth hefyd yn nodi y gall unigolyn "rightly expect surveillance in public places to be necessary and proportionate with appropriate safeguards in place". Ystyriwyd y Cod a'r canllawiau 'Facing the Camera' fel rhan o'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data. Gall y Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw hefyd ymgorffori rhestr wirio'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth.

9. Y Coleg Plismona – Trafodaeth broffesiynol ynghylch defnyddio Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw.

10. Gwasanaeth Digidol yr Heddlu – Trafodaethau proffesiynol ynghylch datblygiadau i'r system yn erbyn y darlun dymunol ar gyfer cyflwyno'r dechnoleg yn genedlaethol yn y dyfodol.

11. Y Labordy Ffiseg Cenedlaethol – Trafodaethau proffesiynol ynghylch integreiddio ymchwil academiaidd yn y dechnoleg blismona, y dilemâu sy'n gysylltiedig â hi a'r defnydd a wneir ohoni.

12. Rhaglen Cronfa Ddata Genedlaethol Gorfodi'r Gyfraith (NLEDP) – Disgwylir i ganllawiau i gefnogi llwyfan newydd gael eu cyhoeddi yn 2023.

13. Sefydliad Ada Lovelace - nododd adroddiad a gomisiynwyd ym mis Medi 2019 y byddai cefnogaeth y cyhoedd o blaid technoleg adnabod wynebau byw yn amodol ar ddangos ei heffaith o ran lleihau troseddau - roedd 71 yn cytuno â'r gosodiad, "the police should be able to use facial recognition on in public spaces, provided it helps reduce crime".

14. Panel Moeseg Plismona Llundain (PEP) – corff annibynnol a sefydlwyd gan y maer er mwyn rhoi cyngor ar foeseg, a luniodd adroddiad ar dreialon o dechnoleg adnabod wynebau byw a gynhaliwyd gan yr Heddlu Metropolitanaid. Roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau arolwg cyhoeddus a ddangosodd fod:

- 57% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn ei bod yn dderbyniol i'r heddlu ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw;
- cefnogaeth y cyhoedd yn cynyddu i 83% a nododd ei bod yn dderbyniol defnyddio technoleg adnabod wynebau byw i chwilio am droseddwyd difrifol;
- 50% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn y byddai'r dechnoleg yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel;
- tua thraean wedi codi pryderon ynghylch yr effaith ar eu preifatrwydd.

Roedd cyfreithlondeb defnyddio technoleg adnabod wynebau byw mewn man cyhoeddus hefyd yn destun achos llys sifil yn *R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2019] EWHC 2341 (Gwein)* ac wedyn yn y Llys Apêl yn *R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2020] EWCA Civ 1058* a ddyfarnodd fod:

".....the legal framework which regulates the deployment of AFR Locate does contain safeguards which enable the proportionality of the interference with Article 8 rights to be adequately examined. In particular, the regime under the DPA 2018 enables examination of the question whether there was a proper law enforcement purpose and whether the means used were strictly necessary."

Ac, er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith, fod yn rhaid i'r sail gyfreithiol fod yn:

"'accessible' to the person concerned, meaning that it must be published and comprehensible, and it must be possible to discover what its provisions are. The measure

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

must be 'foreseeable' meaning that it must be possible for a person to foresee its consequences for them and it should not 'confer a discretion so broad that its scope is in practice dependant on the will of those who apply it, rather than on the law itself'.

Cam 4: Cyfreithlondeb, Rheidrwydd a Chymesuredd

Rhowch wybodaeth am y gofynion canlynol neu ceisiwch gyngor gan y cyngorydd ar asesu'r effaith ar ddiogelu data neu'r Swyddog Diogelu Data:

<p>A fydd y data'n cael eu prosesu at Ddibenion Gorfodi'r Gyfraith neu at ddibenion cyffredinol? Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Brosesu at Ddibenion Gorfodi'r Gyfraith neu Ddibenion Cyffredinol</p>	Y ddau	
<p>Pŵer cyfreithiol i brosesu data e.e. statud, y gyfraith gyffredin, gorchymyn llys ac ati. (<i>rhowch fanylion</i>)</p>	<p>Y gyfraith gyffredin – diben plismona a diben gorfodi'r gyfraith Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984</p> <p>Mae'r Mandad Cyfreithiol i Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wyneb Bau Byw yn rhoi dadansoddiad manwl sy'n ymwneud ag erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol ac ystyriaethau cyfreithiol perthnasol eraill.</p>	
<p>Y sail gyfreithiol dros brosesu (<i>dewiswch yr amodau priodol. Os bydd amodau gwahanol yn gymwys i gamau gwahanol o'r gweithgarwch prosesu rhowch ragor o fanylion</i>)</p> <p><i>Prosesu Cyffredinol (GDPR): Dewiswch un amod ar gyfer prosesu data personol. Os byddwch yn prosesu data categori arbennig dewiswch amod ychwanegol.</i></p> <p>Canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Rheoliad Cyffredinol</p>	<p>Cyffredinol: Data personol</p> <p><input type="checkbox"/> Cydsyniad</p> <p><input type="checkbox"/> Contract</p> <p><input type="checkbox"/> Buddiannau Allweddol</p> <p><input type="checkbox"/> Rhwymedigaeth Gyfreithiol</p> <p>X Tasg Gyhoeddus</p> <p><input type="checkbox"/> Buddiannau Dilys</p>	<p>Cyffredinol: Data categori arbennig</p> <p>X Cydsyniad Penodol</p> <p><input type="checkbox"/> Rhwymedigaethau a hawliau mewn deddfwriaeth ynglŷn â chyflogaeth, nawdd cymdeithasol a diogelwch cymdeithasol</p> <p><input type="checkbox"/> Buddiannau allweddol</p>

<p>ar Ddiogelu Data (GDPR) - Amodau Cyfreithiol ar gyfer prosesu</p> <p><i>Prosesu at Ddibenion Gorfodi'r Gyfraith:</i> <i>Dewiswch un amod ar gyfer prosesu data personol yn unig.</i> <i>Os bydd data sensitif yn cael eu prosesu, dewiswch amod ychwanegol.</i></p> <p>Canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i Amodau Gorfodi'r Gyfraith</p>		<p><input type="checkbox"/> Aelodau neu gyn-aelodau o gorff nid er elw</p> <p><input type="checkbox"/> Mae'r data wedi cael eu gwneud yn gyhoeddus gan destun y data</p> <p><input type="checkbox"/> Hawliadau cyfreithiol</p> <p>X Budd sylweddol i'r cyhoedd</p> <p><input type="checkbox"/> Iechyd</p> <p><input type="checkbox"/> Budd y cyhoedd mewn Iechyd y Cyhoedd</p> <p><input type="checkbox"/> Archifo</p> <p>X Ymchwil hanesyddol</p>
	<p>Gorfodi'r Gyfraith: Data personol</p> <p><input type="checkbox"/> Cydsyniad</p> <p>X Mae angen prosesu'r data er mwyn i awdurdod cymwys allu cyflawni tasg at y diben hwnnw.</p>	<p>Gorfodi'r Gyfraith: Prosesu data sensitif yn cynnwys</p> <p><input type="checkbox"/> Cydsyniad</p> <p>X Mae prosesu'r data yn gwbl angenrheidiol at y diben gorfodi'r gyfraith; a</p> <p>X Dibenion statudol ac ati</p> <p>X Gweinyddu cyfiawnder</p> <p>X Diogelu buddiannau allweddol</p> <p>X Diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg</p> <p><input type="checkbox"/> Data personol a gyhoeddwyd eisoes</p> <p><input type="checkbox"/> Hawliadau cyfreithiol</p> <p><input type="checkbox"/> Deddfau Barnwrol</p>

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

		<input type="checkbox"/> Archifo
<p>Deddf Diogelu Data 2018 (i'w gwblhau pan fydd data categori arbennig (Rhan 2) neu ddata sensitif (Rhan 3) yn cael eu prosesu)</p>	<p>Atodlen 8 (Rhan 3) para 1 – Dibenion statudol Atodlen 8 (Rhan 3) para 2 – Gweinyddu Cyfiawnder Atodlen 8 (Rhan 3) para 3 – Diogelu buddiannau allweddol yr unigolyn Atodlen 8 (Rhan 3) para 4 – Diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg Atodlen 8 (Rhan 3) para 8 - Atal twyll Atodlen 9 (Rhan 2) para 2a – Cydsyniad penodol Erthygl 9 (Rhan 2) para 2g – Budd sylweddol i'r cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Rhan 2 Atodlen 1 para 6 Statudol ○ Rhan 2 Atodlen 1 para 18 Diogelu plant neu unigolion sy'n wynebu risg <p>Erthygl 9 (Rhan 2) para 2j – Ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Rhan 1 Atodlen 1 para 4 – Ymchwil 	
<p>Gwybodaeth am Breifatrwydd – pa wybodaeth y byddwch yn ei darparu i'r unigolion y mae eu data yn cael eu prosesu, sut y caiff y wybodaeth hon ei darparu ac ar ba gam o'r gwaith prosesu.</p> <p>Os na fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei darparu, rhowch y rheswm dros hyn.</p>	<p>Bydd strategaeth gyfathrebu ar waith bob tro y Defnyddir y dechnoleg.</p> <p>Rhaid i arwyddion sy'n tynnu sylw at y ffaith bod technoleg adnabod wynebaw byw yn cael ei defnyddio gael eu gosod mewn manau amlwg ymlaen llaw y tu allan i'r Parth Adnabod. Diben y mesur hwn yw hysbysu aelodau o'r cyhoedd am bresenoldeb technoleg adnabod wynebaw byw a rhoi digon o amser iddynt arfer eu hawl i beidio â cherdded i mewn i'r Parth Adnabod.</p> <p>Rhaid hysbysu'r cyhoedd cyn i'r dechnoleg gael ei Defnyddio heb danseilio amcanion y Defnydd o'r dechnoleg. Dylid hysbysu'r cyhoedd am fanylion y dechnoleg adnabod wynebaw byw gan ddefnyddio gwefannau heddluoedd a sianeli cyfathrebu priodol eraill (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol).</p> <p>Hefyd, fel arfer dylid cynnig gwybodaeth am y dechnoleg i unrhyw aelod o'r cyhoedd yr Ymgysylltir ag ef, yn dilyn Rhybudd, fel rhan o'r Defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw. Dylid rhoi gwybodaeth gyswllt ar gyfer yr ymgyrch lle</p>	

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	<p>mae technoleg adnabod wynebau byw yn cael ei defnyddio i unrhyw un y mae angen rhagor o wybodaeth arno am dechnoleg adnabod wynebau.</p> <p>Mae trosolwg o ddogfennau ar gael i'r cyhoedd yn Atodiad A</p>
<p>A fydd y data personol a gesglir yn cael eu defnyddio at unrhyw ddiben arall? (<i>Rhowch fanylion</i>)</p>	<p>Na fyddant.</p>
<p>A fydd y gwaith prosesu yn cynnwys system i hwyluso arfer hawliau gan unigolion (<i>dewiswch yr hawliau y gellir eu harfer</i>)</p>	<p>Lle y bo'n bosibl ac yn briodol.</p> <p>Bydd unigolion yn gallu osgoi'r ardal lle mae'r dechnoleg yn cael ei Defnyddio.</p> <p>Yr hawl i gael eich hysbysu – caiff aelodau o'r cyhoedd eu hysbysu cyn i'r dechnoleg gael ei Defnyddio. Ar ôl Defnyddio'r dechnoleg ac yn dibynnu ar faint o amser sydd wedi mynd heibio, bydd p'un a ellir arfer yr hawl hon yn dibynnu ar b'un a nodwyd cyfatebiad posibl rhwng y ddelwedd o unigolyn â'r rhai ar y Rhestr Wylïo er y gellir rhoi manylion am amser, dyddiad a lleoliad y Defnydd o'r dechnoleg i unigolion er mwyn iddynt benderfynu pa mor debygol ydyw bod eu data wedi cael eu prosesu. Gellir ail-lunio Rhestrau Gwylio ac, felly, mae'n bosibl y gallai unigolion ar Restr Wylïo arfer yr hawl hon lle y bo'n briodol.</p> <p>Mynediad at Ddata gan y Testun – ni fyddai aelodau o'r cyhoedd yn gallu arfer yr hawl hon gan na fyddai'r heddlu yn gallu dod o hyd i'w data yn ôl-weithredol gan y byddai'r wybodaeth hon wedi cael ei dileu ac na fyddai wedi cael ei pharu ag unrhyw ddynodyddion. Gellir ail-lunio Rhestrau Gwylio ac, felly, mae'n bosibl y gallai unigolion ar Restr Wylïo arfer yr hawl hon lle y bo'n briodol.</p> <p>Yr hawl i gywiro – bydd unigolion yn gallu herio'r gwaith prosesu lle y nodwyd Cyfatebiad Posibl gan Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw a'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw/Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw.</p>

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	<p>Yr hawl i ddileu – gellir cyflwyno cais os nodwyd cyfatebiad a bod unigolion yn herio'r canlyniad.</p> <p>Yr hawl i gludadwyedd data – ddim yn gymwys</p> <p>Yr hawl i wrthwynebu – ddim yn gymwys. Bydd sail gyfreithlon gymhellol dros Ddefnyddio'r dechnoleg bob amser, a gaiff ei dogfennu ymlaen llaw.</p> <p>Yr hawl i wrthwynebu penderfyniadau a wneir yn awtomataidd gan gynnwys prosesu – ni wneir unrhyw benderfyniadau awtomataidd. Bydd pob penderfyniad yn destun ymyrraeth â llaw.</p>
<p>Sut y byddwch yn sicrhau bod y data sy'n cael eu prosesu yn gywir ac yn gyfredol? A fydd y gweithgarwch prosesu yn eich galluogi i ddileu neu gywiro data yn ddi-oed?</p>	<p>Aelodau o'r cyhoedd – caiff data eu prosesu mewn amser real.</p> <p>Rhestr Wyllo – rhaid monitro'r rhestr wirio er mwyn sicrhau mai'r delweddau sy'n cael eu lanlwytho iddi yw'r ddelwedd fwyaf diweddar a chyfredol o'r unigolyn. Bydd rhestrau gwyllo a gaiff eu lanlwytho i raglen adnabod wynebaw byw Heddlu De Cymru wedi'u llunio o fewn y 24 awr flaenorol er mwyn rhoi mwy o sicrwydd bod y rhai sydd ar y rhestr yn dal i fod o ddiddordeb i Heddlu De Cymru. Mae mesurau technegol hefyd ar waith er mwyn croesgyfeirio data â Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu er mwyn cadarnhau bod unigolion yn dal i fod o ddiddordeb cyn trosglwyddo data wedi'u hamgryptio i'r rhaglen adnabod wynebaw byw. Caiff Rhestr Wyllo newydd ei llunio ar gyfer pob Defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw. Mae'r rhaglen yn asesu ansawdd ac addasrwydd delweddau i'w cymharu gan alluogi personél Heddlu De Cymru i ystyried a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â delweddau gwael sy'n debygol o gynhyrchu Rhybuddion Anwir.</p> <p>Fel rhan o broses gaffael yr Heddlu, rhaid arfer diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â pherfformiad disgwylidiedig (neu gywirdeb) algorithm. Mae'r Sefydliad Safonau a Thechnoleg Cenedlaethol yn cynnal profion helaeth o systemau Adnabod Wynebaw yn rheolaidd. Er bod y rhain yn fan cychwyn da, o ystyried amrywiadau algorithm-benodol, rhaid i berchennog y system wybod ei algorithm. Er y gall data profion gan NIST, sydd ar gael i'r cyhoedd, ddarparu gwybodaeth i berchenogion, fel arfer bydd yn ddefnyddiol mesur cywirdeb yr algorithm gweithredol yn benodol ar y setiau data delweddau gweithredol.</p>

	<p>Mae dau fetrig allweddol sy'n pennu 'cywirdeb' rhaglen adnabod wynebaw byw a thrydydd un sy'n nodi'r amser a gymerir i gynhyrchu Rhybudd. Nodir y rhain yn y paragraffau isod.</p> <p>Cyfradd Adnabod Gwirioneddol. Cyfeirir at hyn hefyd fel y Gyfradd Nodi Cadarnhaol Gwirioneddol. Cyfanswm nifer y troeon y gwyddys bod unigolyn/unigolion ar Restr Wyllo wedi mynd drwy'r Parth Adnabod a chynhyrchu Rhybudd yn gywir, fel cyfran o gyfanswm nifer y troeon y mae'r unigolion hynny yn mynd drwy'r Parth Adnabod, p'un a gynhyrchir Rhybudd gan y rhaglen Adnabod Wynebaw Byw ai peidio.</p> <p>Dim ond drwy 'hadu' unigolion hysbys (er enghraifft swyddogion neu staff yr heddlu) ar Restr Wyllo Las a mesur nifer y troeon y mae'r unigolion hyn yn bresennol yn y Parth Adnabod yn erbyn nifer y Rhybuddion a gynhyrchir y gellir cynhyrchu'r metrig hwn. Ni ddylai defnyddwyr (na gwerthwyr) rhaglenni adnabod wynebaw byw ganolbwyntio mor fanwl ar wneud y defnydd mwyaf posibl o'r metrig hwn, gan y gallai gynyddu'r Gyfradd Rhybuddion Anwir i'r fath raddau nes ei bod yn amhosibl rheoli nifer y Rhybuddion Anwir.</p> <p>Cyfradd Rhybuddion Anwir. Cyfeirir at hyn hefyd fel Cyfradd Nodi Cadarnhaol Anwir.</p> <p>Nifer yr unigolion nad ydynt ar y rhestr wyllo sy'n cynhyrchu Rhybudd Anwir neu Rybudd Anwir wedi'i Gadarnhau fel cyfran o gyfanswm nifer y bobl sy'n mynd drwy'r Parth Adnabod.</p> <p>Dylid cofnodi pob un o fetrigau'r Gyfradd Adnabod Gwirioneddol a'r Gyfradd Rhybuddion Anwir a chyflwyno adroddiad arnynt i'r Uwch-Swyddog Cyfrifol. Mae profiad gweithredol hyd yma yn awgrymu, yn y rhan fwyaf o senarios, y dylai'r Gyfradd Adnabod Gwirioneddol gyfateb i 0.1% neu lai (h.y. llai nag un mewn 1000). Dylid nodi bod nifer yr unigolion a brosesir gan y rhaglen adnabod wynebaw byw ac, i raddau llai, faint y Rhestr Wyllo yn cael effaith fawr ar nifer y Rhybuddion Anwir a gynhyrchir.</p> <p>Dylid hefyd nodi y caiff y Trothwy cyfluniadwy (lle y bydd dwy ddelwedd sy'n cael eu cymharu yn cynhyrchu Rhybudd) yn cael effaith uniongyrchol ar y Gyfradd Adnabod Gwirioneddol a'r Gyfradd Rhybuddion Anwir. Mae angen gosod y Trothwy yn ofalus er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o</p>
--	--

	<p>ddychwelyd Rhybuddion Gwirioneddol gan gadw nifer y Rhybuddion Anwir ar lefelau derbynol fel y'u pennir gan yr Uwch-Swyddog Cyfrifol ar ran yr heddlu.</p> <p>Amser Adnabod. Trydydd metrig pwysig yw'r Amser Adnabod. Dyma'r amser a gymerir, ar gyfartaledd, rhwng yr adeg y mae unigolyn ar y Rhestr Wyllo yn mynd heibio i gamera a'r adeg y caiff Rhybudd ei gynhyrchu. Noder bod yr amser a gymerir mewn gwirionedd i weithredu ar Rybudd bob amser yn hwy na'r Amser Adnabod gan fod angen amser ychwanegol er mwyn i'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw asesu'r Rhybudd a'i drosglwyddo i Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw er mwyn iddo benderfynu'n derfynol a ddylid Ymgysylltu ai peidio.</p> <p>Rhaid i'r Amser Adnabod fod yn ddigon byr fel y gellir ymateb yn effeithiol i Rybudd cyn i'r unigolyn dan sylw symud yn rhy bell o'r man lle y cynhyrchwyd y Rhybudd cychwynol. Bydd camerâu fideo eglur iawn â sawl wyneb ym mhob ffrâm yn gofyn am gryn dipyn o bŵer prosesu er mwyn i'r Amser Adnabod fod yn ddigon cyflym i alluogi ymateb mewn amser real.</p> <p>Er mwyn gwella dealltwriaeth fewnol barhaus o berfformiad algorithmau a meddalwedd, mae Heddlu De Cymru wedi comisiynu gwerthusiad academaidd annibynnol i'w gwblhau gan y Labordy Ffiseg Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys yr un lefel o ddealltwriaeth ar gyfer oedran, rhywedd a chefnidir ethnig.</p> <p>Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi rhoi arweiniad defnyddiol ynglŷn â'i disgwyliadau o ran cywirdeb ystadegol gan nodi nad yw'n golygu "that [the LFR] application needs to be 100% statistically accurate to comply with the accuracy principle". Fodd bynnag, mae Heddlu De Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r farn y dylai pa mor aml y caiff yr algorithm ei fonitro fod yn gymesur ag effaith allbwn anghywir ar unigolyn. Felly, mae Heddlu De Cymru yn darparu ar gyfer gwerthusiad parhaus a phroses adolygu ar ôl Defnyddio'r dechnoleg a gynhelir bob tro y Defnyddir y dechnoleg.</p>
--	--

	<p>Yn ei werthusiad o fwy na 200 o algorithmau, a gynhaliwyd yn 2018, nododd NIST fod ganddo barch mawr tuag at gyflenwr Heddlu De Cymru.</p> <p>Bydd personél Heddlu De Cymru yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau bod pob delwedd ar Restr Wyllo yn perthyn i'r unigolyn a fwriedir. Ni chymerir unrhyw gamau yn erbyn unigolyn heb i ystyriaeth ddynol gael ei rhoi i gyfatebiad dilys.</p>
<p>A yw'r gwaith prosesu yn ei gwneud yn ofynnol i chi gadw'r wybodaeth hon ar ffurf adnabyddadwy? <i>(Os ydyw, rhowch y rhesymau dros hyn)</i></p> <p>A allech anonymeiddio'r data neu ddefnyddio ffugenwau er mwyn cyflawni eich nod?</p>	<p>Bydd angen i'r unig wybodaeth a gedwir fod ar ffurf adnabyddadwy er mwyn i'r diben plismona/diben gorfodi'r gyfraith allu cael ei gyflawni.</p> <p>Bydd angen i unrhyw ddata a gedwir ar ôl i'r dechnoleg gael ei Defnyddio gael eu cadwyn unol â Deddf Diogelu Data 2018, safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu a Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996; <i>a/neu</i> yn unol â pholisïau cwynion/ymchwilio i ymddygiad Heddlu De Cymru.</p> <p>Mae systemau technegol a gweithdrefnau gweithredu safonol yn helpu i sicrhau bod data yn cael eu cadw'n briodol neu eu dileu. Mae prosesau adolygu a gynhelir ar ôl Defnyddio'r dechnoleg a swyddogaeth archwilio fewnol gysylltiedig yn rhoi sicrwydd yn hyn o beth.</p> <p>Caiff systemau prosesu a pholisi a systemau adnabod wynebau byw eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y data personol a ddelir yn gymesur â dibenion plismona</p> <p>Yn ystod y Defnydd o'r dechnoleg ni fydd unrhyw ddynodyddion ychwanegol at Dimpledi Biometrig yr aelodau o'r cyhoedd a gaiff eu recordio gan dechnoleg adnabod wynebau byw. Os na nodir cyfatebiad rhwng y ddelwedd a'r rhai ar y Rhestr Wyllo caiff y ddelwedd ei dileu.</p> <p>Mae angen i'r delweddau ar y Rhestr Wyllo allu cael eu hadnabod gan yr heddlu ac ni ellir eu hanonymeiddio na defnyddio ffugenwau er mwyn cyflawni nod y Defnydd.</p>

Am faint o amser y bydd angen i chi gadw'r data personol? (*Nodwch y fframwaith y nodwyd y caiff y data eu cadw oddi tano*)

Pa systemau sydd ar waith er mwyn adolygu neu waredu'r data neu eu dileu pan na fydd eu hangen mwyach?

Templedi Biometrig – dim cyfatebiadau

Caiff unrhyw Dempledi Biometrig nad ydynt yn cyfateb i'r rhai ar y Rhestr Wyllo eu dileu'n awtomatig ar unwaith.

Cyfatebiadau Posibl

Pan nodir Cyfatebiad Posibl bydd hyn yn cynhyrchu Rhybudd a gaiff ei ddangos i Weithredwr y Rhaglen Adnabod Wynebaw Byw. Os nodir Cyfatebiad Posibl, caiff tair crynodelwedd eu cadw yn y rhaglen adnabod wynebaw byw ynghyd â'r metadata cysylltiedig. Y gyntaf yw'r Ddelwedd o'r Unigolyn, yr ail yr wyneb a dynnwyd o'r deunydd teledu cylch cyfyng a'r drydedd yw'r ffrâm teledu cylch cyfyng y tynnwyd y Ddelwedd Chwilota ohoni.

Y cyfnod cadw hiraf a ganiateir ar gyfer delweddau sy'n Gyfatebiad Posibl a'r Templedi Biometrig cysylltiedig yw 24 awr er bod y wybodaeth hon yn cael ei dileu ar unwaith ar ôl Defnyddio'r dechnoleg fel arfer

Rhestrau Gwyllo a metadata cysylltiedig

Cânt eu dileu ar unwaith ar ôl eu Defnyddio neu o fewn 24 awr fan bellaf

Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw a logiau Ymgysylltu

Cedwir data yn unol â chyfnodau cadw safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.

Delweddau o Unigolion – Cyfnod cadw safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu yn dibynnu ar y drosedd a amheuir

Caiff data personol eu storio yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu – haen 1 am 31 diwrnod, haen 2 am chwe blynedd a blwyddyn, gyda data haen 3 yn cael eu cadw am 100 mlynedd.

<p>Pa fesurau sefydliadol a thechnegol a fydd ar waith er mwyn diogelu'r data personol rhag cael eu prosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon a rhag cael eu colli'n ddamweiniol, eu dinistrio neu eu difrodi?</p> <p>Sut y byddwch yn monitro effeithiolrwydd parhaus y mesurau diogelwch?</p> <p>*Noder: os byddwch yn defnyddio proseswyr data pa warantau y byddwch yn eu cael am eu gallu parhaus i gadw'r data yn ddiogel?</p>	<p>Bydd dau fath o fynediad ar gael i'r rhaglen, sef lefelau mynediad 'defnyddiwr' a 'gweinyddwr' Caiff pob aelod o staff gweithredol ei fetio a'i glirio i lefel Fetio gan Reolwyr (MV)/Gwiriad Diogelwch (SC) o leiaf.</p> <p>Rheolaethau mynediad seiliedig ar y rôl Dim ond ar ôl iddynt gwblhau hyfforddiant y rhoddir mynediad i ddefnyddwyr.</p> <p>Mae'r rhaglen yn cynnwys ffeil CSV gadarn â logiau ffeiliau archwilio (stwnshlyd).</p> <p>Caiff pob Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw enw defnyddiwr a chyfrinair y bydd yn gorfod eu newid pa fydd yn defnyddio'r rhaglen am y tro cyntaf (cryfder 'Cyfrifiadur Gweithredol' o wyth nod a ddylai gynnwys priflythrennau a llythrennau bach yn ogystal â bod yn alffa-rifol. Mae cyfrineiriau rhwydweithiau lleol yn cael eu diogelu gan fesurau diogelwch. Nid yw'r rhaglen wedi cael ei rhwydweithio na'i chyflunio i ymestyn i'r rhwydwaith cellog – sy'n fesur diogelwch daearyddol ychwanegol yn y bôn.</p> <p>Nid yw'r rhaglen wedi cael ei rhwydweithio na'i chyflunio i ymestyn i'r rhwydwaith cellog – sy'n fesur diogelwch daearyddol ychwanegol yn y bôn.</p> <p>Caiff pob cysylltiad ei gyfeirio drwy HTTPS a'i ddiogelu ag SSL a TLS 1.2 yn ddiodyn.</p> <p>Fel mesur diogelwch wrth gefn rhag methiant y dechnoleg a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw ei glanhau a'i hailosod, bydd y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw yn cadw'r cof bach USB wedi'i amgryptio tan ddiwedd y Defnydd o'r dechnoleg, sy'n golygu y gall ail-fewnforio'r rhestr wyllo i'r rhaglen adnabod wynebaw byw wedi'i hailgychwyn gan ei gwneud yn bosibl i'r dechnoleg barhau ei gael ei Defnyddio.</p> <p>Rheolir y defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw gan nifer o godau ymarfer gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i'r heddlu megis Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Yn benodol, ymdrinnir â'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn y 12 egwyddor a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Camerâu Gwyliadwriaeth, y mae'n rhai i'r heddlu eu hystyried wrth ddefnyddio systemau o'r fath, yn ogystal â systemau camerâu gwyliadwriaeth eraill a weithredir gan awdurdodau</p>
--	---

	<p>perthnasol. At hynny, mae Cod Ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer camerâu gwylidwriaeth yn gymwys i'r defnydd a wneir ohonynt gan yr heddlu ac awdurdodau eraill.</p> <p>Awdurdod – nodir y trefniadau llywodraethu a'r awdurdod ar gyfer Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebaw Byw ym Mholisi Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebaw Byw. Ni chaniateir i'r dechnoleg gael ei Defnyddio heb awdurdod. Wrth Ddefnyddio'r dechnoleg mae angen timau rheoli i fonitro ac adolygu gwaith prosesu data er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfreithlon. Defnyddir sesiwn ôl-drafod ac adolygiad ar ôl Defnyddio'r dechnoleg er mwyn nodi gwersi ar gyfer y dyfodol, ac mae gwaith archwilio cyfnodol yn rhoi sicrwydd.</p> <p><i>Rhaid i Brif Swyddogion sefydlu eu trefniadau Llywodraethu Mewnol eu hunain ar gyfer technoleg adnabod wynebaw byw. Dylai hyn gynnwys goruchwyliaeth gan Brif Swyddogion a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (neu unigolyn cyfatebol) a gaiff ei gwahanu oddi wrth benderfyniadau gweithredol/gwneuthurwyr penderfyniadau lle y bo'n bosibl er mwyn sicrhau digon o annibyniaeth a thrylwyrredd wrth adolygu defnydd yr Heddlu o dechnoleg adnabod wynebaw byw. Dylai heddluoedd hefyd geisio ymgysylltu â phwyllgorau moeseg, lle y'u ceir mewn heddluoedd, a gellir ymgynghori'n ystyrlon â nhw yn y lle cyntaf er mwyn helpu i bennu trefniadau goruchwyllo perthnasol.</i></p> <p><i>Wrth ystyried y defnydd moesegol o dechnoleg adnabod wynebaw byw, dylai Prif Swyddogion ystyried mabwysiadu fframwaith moesegol y byddant yn gweithredu o'i fewn.</i></p> <p><i>Gweler Dogfennau cysylltiedig Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebaw byw.</i></p> <p>Nodir y meini prawf ar gyfer Defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw ym Mholisi Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebaw Byw:</p>
--	---

	<p>Rhaid dogfennu, asesu ac awdurdodi'r defnydd o'r dechnoleg yn briodol bob tro y caiff ei defnyddio.</p> <p>Os na all Swyddog Awdurdodi ddarparu ei benderfyniad ynghylch cais i ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yn ysgrifenedig ar unwaith gellir rhoi awdurdodiad ar lafar. Wedyn, rhaid i'r awdurdodiad llafar gael ei gofnodi'n ysgrifenedig gan y Swyddog Awdurdodi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac, oni bai ei fod yn fater o frys, cyn i'r dechnoleg adnabod wynebaw byw gael ei Defnyddio.</p> <p>Rhaid i'r Defnydd o'r dechnoleg:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ fod wedi'i dargedu▪ cael ei arwain gan gudd-wybodaeth▪ bod â therfyn amser ac wedi'i gyfyngu'n ddaearyddol <p>Dangosir cydymffurfiaeth drwy ddogfennau polisi heddluoedd gan gynnwys:</p> <p>Dogfen bolisi briodol sy'n amlinellu'r mesurau diogelwch a'r rheolaethau sydd ar waith</p> <p>Asesiadau - Mae'r rhain yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (neu gofnod wedi'i ddogfennu tebyg arall), Asesiad cyffredinol o'r Effaith ar Ddiogelu Data a Hunanasesiad y Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth. Rhaid i'r dogfennau hyn gael eu hystyried gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau wrth lunio awdurdod er mwyn sicrhau eu bod yn</p>
--	---

	<p>ddigonol i ymdrin â'r materion sy'n codi o'r Defnydd arfaethedig o'r dechnoleg. Rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau gynnwys ei Swyddog Diogelu Data wrth ysgrifennu'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a rheoli'r gwaith o brosesu data personol.</p> <p>Rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau sicrhau bod materion wedi cael eu nodi, eu dogfennu a'u lliniaru'n briodol er mwyn sicrhau bod y Defnydd o'r dechnoleg yn gymesur â'r diben plismona yn ogystal â bod yn angenrheidiol.</p> <p>Asesiad o risgiau gweithredol – Asesiad wedi'i ddogfennu o risgiau gweithredol penodol sy'n gysylltiedig â'r Defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw gan gynnwys penderfyniadau a wneir ynghylch lliniaru risgiau.</p> <p>Rhaglen Adnabod Wynebaw Byw – mae'r rhaglen yn esbonio sut mae'r defnydd arfaethedig o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn seiliedig ar achos cudd-wybodaeth. Dylai'r rhaglen roi manylion y Defnydd arfaethedig o'r dechnoleg, gan gynnwys lleoliad, dyddiadau/amseroedd, nod dilys, rheidrwydd, cymesuredd, mesurau diogelwch, cyfansoddiad y Rhestr Wyllo ac adnoddau</p> <p>Metrigau perfformiad – Dogfen sy'n nodi'r metrigau hynny a gaiff eu casglu a'u defnyddio i asesu manteision yr ymgyrch. Efallai y bydd heddluoedd hefyd yn ymdrin â hyn yn eu rhaglenni adnabod wynebaw byw a/neu ym mholisi heddlu ar gyfer technoleg adnabod wynebaw byw.</p> <p>Dogfen Awdurdod Ysgrifenedig - Mae awdurdodiad ysgrifenedig y Swyddog Awdurdodi yn darparu trywydd archwilio ar gyfer penderfyniadau a wnaed sy'n dangos sut mae'r Swyddog Awdurdodi wedi ystyried y Rhaglen Adnabod Wynebaw Byw a'i fod yn fodlon ar atebolrwydd, cyfreithlondeb, rheidrwydd a chymesuredd y Defnydd o'r dechnoleg, y mesurau diogelwch sy'n gymwys i'r Defnydd o'r dechnoleg a'r dewisiadau amgen a ystyriwyd ond y tybiwyd eu bod yn llai ymwthiol i gyflawni'r diben plismona.</p> <p>Bydd y ddogfen yn nodi (neu, os ymdrinnir ag ef yn y Rhaglen Adnabod Wynebaw Byw a/neu ar lefel polisi Heddlu, yn awdurdodi) y dull o ymdrin â'r canlynol: arwyddion cyson glir a phriodol sy'n ystyried llwybrau rhagweladwy yn llawn</p>
--	---

	<p>sut y caiff gwybodaeth am brosesu teg ei darparu mewn manau cyhoeddus lle mae technoleg adnabod wynebaw byw yn cael ei defnyddio ac ar wefannau'r heddlu;</p> <p>sut y gall unigolion arfer eu hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data</p> <p>y trefniadau sydd wedi'u gwneud er mwyn rheoli'r broses o gadw a/neu waredu unrhyw ddata personol a gafwyd o ganlyniad i Ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw</p> <p>Rhaid i'r gymeradwyaeth ysgrifenedig gael ei chadw yn unol ag Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a deddfau neu bolisiau perthnasol eraill a'i darparu i'w harchwilio a'i hadolygu gan gorff annibynnol yn ôl y gofyn</p> <p>Logiau defnydd – Logiau a gwblheir wrth gynllunio'r Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebaw a'i roi ar waith. Er enghraifft, logiau a gwblheir gan Gomanderaid Aur ac Efydd a Gweithredwyr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw a Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebaw Byw.</p> <p>Cofnod Defnyddio'r Rhaglen – Mae'n cofnodi manylion am ble a phryd y Defnyddiwyd y dechnoleg, pa adnoddau a ddefnyddiwyd, ystadegau perthnasol, canlyniadau a chrynodeb o unrhyw broblemau.</p> <p>Canslo Rhaglen Adnabod Wynebaw Byw – Mae'n cofnodi manylion am ble a phryd y Defnyddiwyd y dechnoleg, yr amgylchiadau a achosodd i'r Defnydd o'r dechnoleg gael ei derfynu, pa adnoddau a ddefnyddiwyd, ystadegau perthnasol, canlyniadau a chrynodeb o unrhyw broblemau yn dilyn adolygiad ar ôl Defnyddio'r dechnoleg.</p> <p>Ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg, bydd yr heddlu bob amser yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd gan gynnwys tystiolaeth o effeithiolrwydd mewn senarios gweithredol tebyg a'i gario ymlaen i unrhyw Ddefnydd o'r dechnoleg a wneir ar ôl hynny er mwyn sicrhau bod y defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw ar bob achlysur olynol yn wirioneddol fuddiol, yn enwedig i'r cyhoedd.</p>
--	--

	<p>Bydd y gwaith prosesu hefyd yn cael ei gynnal yn erbyn gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Camerâu Gwyliadwriaeth sydd â'r egwyddorion canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Rhaid i system camerâu gwyliadwriaeth bob amser gael ei defnyddio at ddiben penodol sy'n anelu at gyflawni nod dilys ac sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu angen dybryd a nodwyd.2. Rhaid i'r defnydd o system camerâu gwyliadwriaeth ystyried ei heffaith ar unigolion a'u preifatrwydd, gydag adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau y gellir cyfiawnhau ei defnyddio o hyd.3. Rhaid sicrhau cymaint o dryloywder â phosibl o ran y defnydd o system camerâu gwyliadwriaeth, gan gynnwys pwynt cyswllt cyhoeddedig ar gyfer cael gwybodaeth4. Rhaid sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir ar gyfer yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â system camerâu gwyliadwriaeth, gan gynnwys delweddau a gwybodaeth a gesglir, a ddelir ac a ddefnyddir.5. Rhaid i reolau, polisïau a gweithdrefnau clir fod ar waith cyn i system camerâu gwyliadwriaeth gael ei defnyddio a rhaid i bawb sy'n gorfod cydymffurfio â nhw gael eu hysbysu amdanynt.6. Dim ond delweddau a gwybodaeth sy'n gwbl angenrheidiol er mwyn cyflawni diben datganedig system camerâu gwyliadwriaeth y dylid eu storio a dylid dileu delweddau a gwybodaeth o'r fath unwaith y bydd diben y system wedi'i gyflawni.7. Dylid cyfyngu ar fynediad at ddelweddau a gwybodaeth a gadwyd a dylai fod rheolau pendant ynglŷn â phwy a all gael mynediad atynt ac at ba ddiben y caniateir mynediad o'r fath; dim ond pan fo angen gwneud hynny at ddiben o'r fath neu at ddibenion gorfodi'r gyfraith y dylid datgelu delweddau a gwybodaeth.8. Dylai gweithredwyr systemau camerâu gwyliadwriaeth ystyried unrhyw safonau gweithredol, technegol a chymhwysedd cymeradwy
--	---

	<p>sy'n berthnasol i system a'i diben a gweithio i gyrraedd a chynnal y safonau hynny.</p> <p>9. Dylai delweddau a gwybodaeth o systemau camerâu gwylidwriaeth fod yn destun mesurau diogelwch priodol er mwyn sicrhau na all unrhyw un gael mynediad iddynt a'u defnyddio heb awdurdod.</p> <p>10. Dylai fod systemau adolygu ac archwilio effeithiol ar waith er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion cyfreithiol, polisiâu a safonau yn ymarferol a dylid cyhoeddi adroddiadau rheolaidd.</p> <p>11. Pan ddefnyddir system camerâu gwylidwriaeth i gyflawni nod dilys a diwallu angen dybryd, dylid ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn helpu i ddiogelu'r cyhoedd a gorfodi'r gyfraith gyda'n nod o brosesu delweddau a gwybodaeth o werth tystiolaethol.</p> <p>12. Dylai unrhyw wybodaeth a ddefnyddir i gefnogi system camerâu gwylidwriaeth sy'n nodi cyfatebiadau â delweddau mewn cronfa ddata gyfeirio at ddibenion paru, fod yn gywir ac yn gyfredol.</p> <p>Mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn defnyddio system sy'n annibynnol ar saernïaeth dechnegol bresennol Heddlu De Cymru sydd â dwy haen o ddiogelwch cyfrinair i gael mynediad i'r rhaglen.</p> <p>Mae'r system wedi'i diogelu'n ffisegol pan fydd yn cael ei defnyddio.</p> <p>Caiff delweddau eu trosglwyddo i'r rhaglen adnabod wynebau byw drwy USB gan ddefnyddio peiriant amgryptio caledwedd disg lawn 256-bit AES-CBC a ddiogelir ymhellach gan rif mynediad. Mae mynediad i'r cof bach USB sy'n cynnwys y Rhestr Wylid wedi'i gyfyngu i'r rhai y mae angen iddynt ei ddefnyddio.</p> <p>Delir y data yn ddiogel ar systemau Heddlu De Cymru sy'n hygyrch i swyddogion a staff Heddlu De Cymru ac sy'n seiliedig yn llwyr ar ganiatâd. Caiff cyfrif swyddogion sy'n gadael Heddlu De Cymru ei</p>
--	--

	<p>analluogi'n awtomatig ac, felly, ni fyddent yn gallu gweld y wybodaeth mwyach. Nid yw'r data a ddelir ar systemau Heddlu De Cymru yn ymwneud yn benodol â'r rhaglen adnabod wynebaw byw (mae'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r rhaglen adnabod wynebaw byw allu llunio a chynhyrchu Rhestr Wyllo ac mae'n ymwneud â gwybodaeth blismona a gynhyrchir yn dilyn Rhybuddion Adnabod Wynebaw Byw).</p> <p>Pan gaiff Rhybudd ei gynhyrchu o ganlyniad i Gyfatebiad Posibl ceir Dyfarniad i asesu'r delweddau a, lle y bo angen, bydd Swyddog Ymgysylltu yn ymgysylltu â'r unigolyn y nodwyd ei fod yn Gyfatebiad Posibl cyn i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd.</p> <p>Caiff y defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw fel adnodd i ddod o hyd i Bobl sydd o Ddiddordeb i Heddlu De Cymru ei ystyried ochr yn ochr ag adnoddau a thactegau plismona eraill. Ystyrir pa mor effeithiol ac ymwthiol yw dulliau ymarferol eraill a allai gyflawni'r un canlyniad, gyda'r dull ymarferol lleiaf ymwthiol yn cael ei fabwysiadu er mwyn bwrw ymlaen ag ymchwiliad.</p> <p>Mae Dogfennau Adnabod Wynebaw Byw Heddlu De Cymru yn darparu ar gyfer hyfforddi swyddogion a staff sy'n cymryd rhan mewn Rhaglenni Adnabod Wynebaw Byw a gyflwynir yn bennaf gan hyfforddwr o'r Is-adran Gwasanaethau Digidol. Mae'r hyfforddiant yn helpu i sicrhau bod gan swyddogion a staff:</p> <ol style="list-style-type: none">1. wybodaeth rôl-benodol am Ddogfennau Adnabod Wynebaw Byw Heddlu De Cymru;2. gwybodaeth rôl-benodol am brosesau Defnyddio;3. dealltwriaeth rôl-benodol o sut i brosesu data personol yn gyfreithlon yn unol â Deddf Diogelu Data 2018;4. dealltwriaeth rôl-benodol o gwmpas Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000;5. gwybodaeth rôl-benodol am bwerau'r heddlu a sut y gallant fod yn gymwys wrth ymateb i Rybuddion;
--	--

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	<p>6. gwybodaeth rôl-benodol am sut i gyflunio'r Rhaglen Adnabod Wynebau Byw er mwyn sicrhau bod y system yn perfformio cystal â phosibl a sut i leihau'r effaith ar eraill;</p> <p>7. dealltwriaeth rôl-benodol o nodweddion y Rhaglen Adnabod Wynebau Byw sy'n effeithio ar y tebygolrwydd bod Rhybudd yn ddibynadwy.</p> <p>Wrth ddefnyddio'r dechnoleg, os bydd delwedd ar y Rhestr Wyllo yn cynhyrchu mwy nag un Rhybudd Anwir, ystyrir codi'r Trothwy ar gyfer Rhybuddion ar gyfer yr unigolyn hwnnw ar y Rhestr Wyllo. Yn fwy cyffredinol, mae Uwch-Swyddog Cyfrifol Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw wedi cyfarwyddo y dylid cadw'r Gyfradd Rhybuddion Anwir o fewn lefel o 1 mewn 1000 er mwyn lleihau'r effaith ar y cyhoedd sy'n mynd heibio, gan gydbwyso hynny â'r angen plismona i ddod o hyd i'r rhai ar y Rhestr Wyllo.</p>
<p>A fydd y data personol yn cael eu dal neu eu trosglwyddo y tu allan i'r DU? <i>(Os byddant, rhowch fanylion y lleoliad, yr amgylchedd lle y caiff y data eu dal, y rheswm dros eu trosglwyddo a mesurau diogelwch)</i></p>	<p>Na fyddant. Caiff rhywfaint o ddata eu dal mewn amgylchedd cwmwl. Fodd bynnag, bydd y ganolfan ddata wedi'i lleoli yn y DU</p>
<p>A fydd cytundeb neu gontract rhannu gwybodaeth ar waith gyda'r holl bartïon y caiff data personol eu rhannu â nhw? <i>(Rhowch fanylion)</i></p>	<p>Bydd gwybodaeth ond yn cael ei rhannu pan fydd angen gwneud hynny at ddiben plismona fesul achos. Felly, nid oes angen cytundeb.</p> <p>Bydd contract ar waith gyda chyflenwr yr algorithm.</p>

Cam 5: Nodi ac asesu risgiau sy'n ymwneud â

Rhif	Nodi'r risg – Achos, digwyddiad, effaith	Tebygolrwydd	Effaith	Risg gyffredinol
		U,C,I	U,C,I	U,C,I
1	Gan fod y Rhestr Wyllo yn cael ei dileu ar ôl 24 awr, mae'n bosibl na fydd yr heddlu yn gallu cydymffurfio â chais am fynediad at ddata gan y testun, a fydd yn arwain at gwynion, niwed i enw da'r heddlu ac, o bosibl, hawliadau ariannol.	I	C	I
2	Mae risg y bydd yr heddlu yn ymyrryd o ganlyniad i Rybudd Anwir sydd i'w briodoli i'r ffaith bod y gwerth Trothwy ar gyfer Sgôr Tebygrwydd wedi'i bennu'n rhy isel neu'n rhy uchel, a fydd yn arwain at niwed i enw da'r heddlu, camau gorfodi a chosbau ariannol posibl, colli ymddiriedaeth y cyhoedd a mwy o gwynion.	I	U	C
3	O ganlyniad i gwmpas y Defnydd o'r dechnoleg, mae risg na fydd gwybodaeth am brosesu teg ar gael yn eang i aelodau o'r cyhoedd, sy'n golygu na chânt eu hysbysu am y ffaith bod eu data personol yn cael eu prosesu, a fydd yn arwain at achos posibl o dor diogelwch data, mwy o gwynion, achosion llyso, camau gorfodi a niwed i enw da'r heddlu.	C	C	C
4	Oherwydd natur technoleg adnabod wynebau byw mae risg y bydd y Defnydd o'r dechnoleg yn cyfyngu ar yr hawl i breifatrwydd neu'n mynd yn groes i'r hawl honno neu'n atal aelodau o'r cyhoedd rhag arfer eu hawl i ryddid i ymgynnull a rhyddid mynegiant a roddir iddynt gan y Ddeddf Hawliau Dynol ac nad yw unrhyw achos o gyfyngu ar yr hawliau hyn yn unol â'r gyfraith, a allai arwain at heriau cyfreithiol, hawliadau ariannol a mwy o gwynion.	C	C	C

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

5	O ganlyniad i faterion i gyfyngu ar gwmpas y Rhestr Wyllo, mae risg y caiff gormod o ddelweddau eu cynnwys ar Raglen Adnabod Wynebau Byw.	C	C	C
6	Oherwydd prinder delweddau sydd ar gael i brofi'r feddalwedd, mae risg na chaiff tuedd ei dileu yn yr algorithm, sy'n golygu y caiff nifer anghymesur o unigolion â nodweddion gwarchoddedig eu nodi mewn Rhybuddion Anwir, a allai arwain at her gyfreithiol, hawliadau ariannol a mwy o gwynion.	C	U	U
7	O ganlyniad i allu eang technoleg adnabod wynebau byw i brosesu llawer iawn o ddata personol, mae risg y gallai gormod o ddata personol gael eu prosesu wrth gymryd camau rheoleiddio.	C	U	U
8	O ganlyniad i allu technoleg adnabod wynebau byw i brosesu llawer iawn o ddata, mae risg y gallai gael ei defnyddio at ddibenion gwyliadwriaeth gudd, sy'n golygu y gallai data gael eu prosesu'n gyfreithlon, a allai arwain at achosion llys, colli cyfleoedd i erlyn, mwy o gwynion, niwed i enw da'r heddlu ac, o bosibl, gamau gorfodi rheoleiddiol.	U	U	U
9	Gan fod y gofynion ar gyfer defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn debyg i'w gilydd, mae risg na fydd pob achos o Ddefnyddio'r dechnoleg a phob Rhestr Wyllo yn destun asesiad llawn sy'n dogfennu'r sail resymegol dros gynnwys delweddau ('the who'), cwmpas y lleoliad, hyd y defnydd ('the where') ac a yw'r trothwy cwbl angenrheidiol wedi'i fodloni, sy'n peri risg y caiff data eu prosesu'n anghyfreithlon ac y caiff Deddf Diogelu Data 2018 ei thorri, a allai arwain at hawliadau a chosbau ariannol ac achosion llys.	I	U	C
10	O ganlyniad i ymarferion dileu anghyflawn posibl, mae risg y gallai Rhestrau Gwylio gael eu llunio gan ddefnyddio lluniau a dynnwyd yn y ddalfa a ddylai fod wedi cael eu dileu o	C	U	U

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	systemau'r heddlu yn unol â gweithdrefnau cadw a dileu sefydledig neu gan ddefnyddio delweddau o darddiad ansicr lle y gall cywirdeb fod yn broblem (e.e. delweddau a gafwyd o'r cyfryngau cymdeithasol), mae risg y gallai'r rhain arwain at Ymgysylltu digyfiawnhad ac achosi niwed direswm a digyfiawnhad i unigolion.			
11	O ganlyniad i wahanol senarios lle y gellid rhoi gwybod bod unigolyn ar goll, mae risg na fydd defnyddio technoleg adnabod wynebau byw i ddod o hyd i'r unigolyn hwnnw yn bodloni'r trothwy cwbl angenrheidiol ac y gallai fod yn anghyfreithlon, a allai arwain at her gyfreithiol, cwynion a chosbau ariannol neu gamau gorfodi rheoleiddiol.	C	U	U
12	Lle nad yw'r heddlu wedi cwblhau dogfen bolisi briodol, mae risg y bydd yn mynd yn groes i adran 42 o Ddeddf Diogelu Data 2018, a allai arwain at gamau gorfodi rheoleiddiol a/neu gosbau ariannol.	I	U	C
13	O ganlyniad i ganllawiau anghyson ar sut i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw, mae risg y gallai swyddogion arfer gormod o ddisgresiwn ynghylch pa ddelweddau i'w cynnwys ar y Rhestrau Gwyllo a ble y caiff y dechnoleg ei defnyddio, a allai arwain at brosesu gormod o ddata a phrosesu data'n anghyfreithlon, a allai arwain at her gyfreithiol, cwynion ac, o bosibl, gamau gorfodi.	U	U	U
14	Mae risg na fydd gan swyddogion sy'n ymwneud â'r Defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw ddigon o wybodaeth am ddiogelu data, sy'n golygu na roddir ystyriaeth ddigonol i'r gofynion ar gyfer Defnyddio technoleg adnabod wynebau byw ac y gallai Deddf Diogelu Data 2018 gael ei thorri, a allai arwain at gamau gorfodi, camau cyfreithiol a chosbau ariannol.	C	U	C
15	O ganlyniad i ddiffyg hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, mae risg nad ymdrinnir	I	I	I

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	â data a gofnodir ar y Rhestr Wyllo o fewn Cynllun Marcio Amddiffynnol cywir y Llywodraeth, sy'n golygu na fydd data wedi'u diogelu'n ddigonol wrth gael eu trin ac y gallai data gael eu colli a'u difrodi.			
16	O ganlyniad i ddiffyg hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, mae risg y caiff y Rhestr Wyllo neu ddata eraill a gynhrychir gan y rhaglen adnabod wynebaw byw ei/eu datgelu'n anghyfreithlon i drydydd partïon.	I	C	C
17	O ganlyniad i fethiant technegol, mae risg na fydd cyfarpar yn gweithio'n iawn, a fydd yn arwain at Rybuddion Anwir neu fethiant i nodi Cyfatebiadau Posibl, a allai arwain at niwed a gofid neu'r bygythiad o risg a niwed i eraill.	I	U	C

Cam 6: Nodi mesurau i leihau risg

Rhif	Mesur i leihau neu ddileu risg	Y Ffordd yr Ymdriniwyd â'r Risg	Risg Weddilliol	Cymeradwywyd y mesur
		Lleihawyd Dilëwyd Derbyniwyd Trosglwyddwyd	U,C,I	v/X
1	Gellir ail-lunio'r Rhestr Wyllo. Gellir gwneud hyn bellach drwy gronfa ddata 'ochr gefn' Niche RMS drwy gofnodi rhif enwol unigolyn a dynnwyd i Restr Wyllo ar gyfer unrhyw ddyddiad penodol	Dilëwyd	I	
2	Bydd y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw yn cwblhau'r Dyfarniad cyn unrhyw Ymgysylltiad.	Lleihawyd	I	
3	Bydd strategaeth gyfathrebu ar waith bob amser cyn Defnyddio'r dechnoleg er mwyn sicrhau y defnyddir pob dull posibl o roi	Lleihawyd	I	

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	<p>gwybod bod/y bydd y dechnoleg yn cael ei Defnyddio drwy wahanol sianeli gan gynnwys rhai digidol a ffisegol a bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ynghylch pam mae Defnyddio'r dechnoleg yn effeithiol er mwyn sicrhau bod unigolion a'r cyhoedd yn hyderus bod y penderfyniadau a wneir i ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw a pharhau i'w gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a gwaith dadansoddi tryloyw. Caiff y defnydd o gamerâu ei asesu hefyd yn erbyn Cod Camerâu'r Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth (fel sy'n ofynnol o dan a29 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2021).</p>			
4	<p>Bydd yr asesiad a gynhelir bob tro cyn Defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yn cadarnhau a yw ymyrryd â'r hawliau hyn yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn gyfreithlon ac a oes dulliau llai ymwithiol y gellid eu defnyddio. Caiff cyfiawnhad cadarn, llawn ei ddogfennu bob amser cyn Defnyddio'r dechnoleg.</p>	Lleihawyd	I	
5	<p>Bydd yr asesiad a gynhelir bob tro cyn Defnyddio'r dechnoleg yn cynnwys y gofynion o ran cynnwys delweddau ar y Rhestr Wylid a'r cyfiawnhad dros eu cynnwys er mwyn sicrhau bod y trothwy cwbl angenrheidiol yn cael ei fodloni a bod disgwyliad rhesymol y bydd yr unigolion hynny yn yr ardal lle y caiff y dechnoleg adnabod wynebaw byw ei defnyddio. Cyfyngir ar faint Rhestrau Gwylid a byddant yn cynnwys delweddau cywir y gellir eu dilysu a ddelir neu a gafwyd yn gyfreithlon gan yr heddlu at ddiben gorfodi'r</p>	Lleihawyd	I	

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	gyfraith ar adeg defnyddio'r dechnoleg.			
6	Mae angen cynnwys sicrwydd ynghylch y profion a gynhaliwyd gan gyflenwr y feddalwedd yn y contract a chaiff y feddalwedd ei monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod unrhyw duedd bosibl o ran defnyddio neu ddatblygu'r dechnoleg yn cael ei nodi a'i hunioni fel rhan o ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a thrwy waith asesu gan sefydliadau academaidd, gwerthwyr technoleg a barn y llywodraeth. Caiff Rhestrau Gwyllo eu monitro hefyd er mwyn sicrhau nad yw rhywedd nac ethnigrwydd wedi'u cynrychioli'n annheg. Caiff Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu cwblhau a'u hadolygu'n rheolaidd yn erbyn datblygiadau cyfreithiol.	Lleihawyd	I	
7	Bydd yr asesiadau a gynhelir bob tro cyn Defnyddio'r dechnoleg yn ystyried ac yn dogfennu pam nad yw dulliau llai ymwithiol yn briodol ac yn cyfiawnhau'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn seiliedig ar gudd-wybodaeth.	Lleihawyd	I	
8	Bydd angen i unrhyw wylidwriaeth gudd gael ei hawdurdodi o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn unol â'r trefniadau ar gyfer unrhyw wylidwriaeth gudd.	Dilëwyd	I	
9	Mae Polisi Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebaw byw yn ei gwneud yn ofynnol i gyfres o ddogfennau gael eu cwblhau bob tro cyn Defnyddio'r dechnoleg neu cyn gynted â phosibl mewn achosion brys. Mae angen i'r dogfennau	Lleihawyd	I	

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	hyn gael awdurdod i ddefnyddio a dogfennu pob cyfiawnhad, maen prawf a manylyn ynghylch rheidrwydd, effeithiolrwydd a diben Defnyddio'r dechnoleg er mwyn sicrhau ei fod wedi'i dargedu; ei fod yn cael ei arwain gan gudd-wybodaeth a bod iddo derfyn amser.			
10	Cyfyngir ar faint Rhestrau Gwyllo a byddant yn cynnwys delweddau cywir y gellir eu dilysu a ddelir neu a gafwyd yn gyfreithlon gan yr heddlu at ddiben gorfodi'r gyfraith ar adeg defnyddio'r dechnoleg. Nid Ymgysylltir ag unrhyw unigolion heb wirio Cyfatebiadau Posibl heb ymyrraeth â llaw er mwyn lleihau unrhyw niwed a gofid.	Lleihawyd	I	
11	Pan fydd y dechnoleg yn cael ei Defnyddio i ddod o hyd i unigolyn coll, cynhelir prawf 'cwbl angenrheidiol' er mwyn nodi i ba raddau y mae'r unigolyn coll yn agored i niwed ac a oes digon o gudd-wybodaeth i awgrymu y gall yr unigolyn fod mewn ardal benodol ar adeg benodol. Bydd angen i hyn gael ei gymeradwyo gan un o swyddogion yr awdurdod gofynnol.	Lleihawyd	I	
12	Bydd gan yr heddlu ddogfennau polisi priodol ar gyfer prosesu data o raglenni adnabod wynebaw byw o dan Ran 2 a Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018.	Dilëwyd	I	
13	Mae Polisi Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebaw byw yn ei gwneud yn ofynnol i'r Defnydd o'r dechnoleg gael ei awdurdodi a'i ddogfennu er mwyn sicrhau cysondeb a goruchwyliaeth bob tro y Defnyddir y dechnoleg ac mae'n nodi'r Codau Ymarfer perthnasol	Lleihawyd	I	

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw.			
14	Fel rhan o'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw darperir hyfforddiant priodol ar ddiogelu data.	Lleihawyd	I	
15	Mae holl staff/swyddogion Heddlu De Cymru yn cael hyfforddiant mewn perthynas â Chynllun Marcio Amddiffynnol y Llywodraeth (GPMS). Bydd swyddogion sy'n llunio Rhestrau Gwyllo yn cyflawni'r dasg hon mewn amgylchedd diogel na fydd gan y cyhoedd fynediad iddo. Caiff pob Rhestr Wyllo ei storio'n ddiogel cyn yr ymgyrch a'i dileu ar ôl i'r dechnoleg gael ei Defnyddio.	Derbyniwyd	I	
16	Caiff Swyddogion/Staff sy'n llunio'r Rhestrau Gwyllo eu briffio mewn perthynas â dosbarthu Rhestrau Gwyllo ac maent wedi'u hysbysu na ddylai'r data sensitif hyn gael eu datgelu y tu allan i'r tîm rheoli gweithredol, swyddogion y gellir eu lleoli a staff cymorth technegol. Gallai unrhyw gamau gweithredu yn dilyn Rhybudd gynnwys Heddlu De Cymru yn gweithio gyda heddluoedd eraill, cyrff gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau eraill er mwyn helpu Heddlu De Cymru i arfer ei bwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin. Ni fydd y camau gweithredu hyn yn gofyn am rannu data biometrig ond efallai y byddant yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu De Cymru rannu data personol, fel y byddai'n ei wneud ar gyfer unrhyw ymchwiliad, yn unol â threfniadau rhannu arferol Heddlu De Cymru.	Lleihawyd	I	

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

	<p>Mae mesurau diogelwch ffisegol a thechnegol ar waith (fel y'u disgrifir yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data) er mwyn diogelu'r rhaglen adnabod wynebau byw a'r USB a ddefnyddir i fewnforio'r data i'r rhaglen adnabod wynebau byw.</p>			
17	<p>Mae'r dechnoleg wedi cael ei threalu a'i phrofi gan Heddlu De Cymru. Mae algorithmau NEC hefyd wedi'u gwerthuso gan NIST ac Adran Diogelwch Cartref Llywodraeth UDA ac mae Heddlu De Cymru yn ystyried y canfyddiadau hyn.</p> <p>Bydd Peiriannydd System Adnabod Wynebau Byw, sydd wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar, gan gynnwys newid y gosodiadau er mwyn ymestyn paramedrau gweithredu a lleihau'r Gyfradd Rhybuddion Anwir i lai na 0.1% yn bresennol bod tro y defnyddir y Dechnoleg.</p> <p>Caiff yr holl wybodaeth berthnasol ei chofnodi at ddibenion archwilio. Cedwir cofnodion gan y Gweithredwr Aur, y Gweithredwr Arian a'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw a'r Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw</p> <p>Mae Dogfennau Adnabod Wynebau Byw Heddlu De Cymru hefyd yn amlinellu pwyntiau sy'n ymwneud â'r rhaglen adnabod wynebau byw er mwyn sicrhau y caiff ei defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau ei bod mor effeithiol â phosibl. Maent hefyd yn nodi mai'r Comander Arian a'r Gweithredwr Technoleg Adnabod</p>	Lleihawyd	I	

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

<p>Wynebau Byw sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu perfformiad y system yn barhaus.</p> <p>Mae'r Comandariaid Aur ac Arian yn gorfod dod â'r Defnydd o'r dechnoleg i ben os bydd y Defnydd o'r dechnoleg yn methu â bodloni gofynion Deddf Diogelu Data 2018 ar unrhyw adeg.</p> <p>Caiff effeithiolrwydd parhaus y defnydd y mae Heddlu De Cymru yn ei wneud o dechnoleg adnabod wynebau byw ei adolygu gan ddefnyddio'r prosesau adolygu a gynhelir ar ôl Defnyddio'r dechnoleg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Defnydd a wneir o'r dechnoleg yn y dyfodol yn adlewyrchu'r hyn a ddysgir bob tro y Defnyddir y dechnoleg a bod y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw yn parhau i fod yn adnodd plismona effeithiol a chymesur.</p>			
---	--	--	--

Cam 7: Cymeradwyo a chofnodi canlyniadau

Cam Gweithredu	Enw, swydd, dyddiad	Nodiadau
Cymeradwywyd y mesurau gan:	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd 12.07.2021	Rhaid i gamau gweithredu gael eu hintegreiddio yng nghynllun y prosiect gyda dyddiadau cwblhau a pherchenogion camau gweithredu
Cymeradwywyd y Risgiau Gweddilliol gan:	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd 12.07.2021	Os ydych yn derbyn risgiau uchel gweddilliol, dylech eu cyfeirio at y Swyddog Diogelu Data er mwyn iddo

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

		ystyried ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn mynd ymlaen
Darparwyd cyngor gan y Swyddog Diogelu Data	Louise Voisey, Swyddog Diogelu Data, 12.07.2021	Y Swyddog Diogelu Data i roi cyngor ar gydymffurfiaeth, mesurau lliniaru ac a all y gwaith prosesu fynd yn ei flaen
<p>Crynodeb o gyngor y Swyddog Diogelu Data: Rwy'n fodlon bod sylw wedi'i roi i'r holl ystyriaethau ynglŷn â diogelu data mewn perthynas â'r Defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw gan Heddlu De Cymru, a gyda mantais gwybodaeth gan reoleiddwyr a'r llysoedd am eu disgwyliadau o ran cyfreithlondeb a phreifatrwydd. Os bydd newid sylweddol i'r ffordd y mae Heddlu De Cymru yn defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, dylid ailedrych ar yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn ystyried unrhyw risgiau newydd o ran preifatrwydd i'r unigolion hynny y gallai eu manylion gael eu defnyddio neu eu casglu wrth ddefnyddio'r dechnoleg yn y dyfodol. Nid yw hyn yn golygu y dylid cymhwyso'r holl ystyriaethau bob tro y defnyddir y dechnoleg er mwyn ystyried amgylchiadau, rheidrwydd a chymesuredd yr unigolion a'r lleoliadau y bydd yn eu cynnwys.</p>		
Derbyniwyd neu gwrthodwyd cyngor y Swyddog Diogelu Data gan:	Derbyniwyd y cyngor gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis 16.11.2021	Os cafodd ei wrthod, rhaid rhoi esboniad.
Sylwadau:		
Adolygwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan:	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd 16.11.2021	Os nad yw'r penderfyniad yn cyd-fynd â barn yr ymgynghoreion esboniwch pam
Sylwadau: Lluniwyd y ddogfen mewn ymateb i wybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid		

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

Caiff yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data ei adolygu'n rheolaidd gan:	Yr Arolygydd Andrew Hedley, Arweinydd Gweithredol Technoleg Adnabod Wynebaw	Dylai'r Swyddog Diogelu Data hefyd adolygu cydymffurfiaeth barhaus â'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.
---	---	--

Atodiad A – Gwybodaeth sydd Ar Gael i'r Cyhoedd

Mae gan Heddlu De Cymru Strategaeth a Strwythur Llywodraethu Gwybodaeth aeddfed ar waith. Mae'n ymgorffori'r gofynion i Heddlu De Cymru fod yn agored ac yn dryloyw (lle y bo'n briodol ac yn bosibl) ynghylch y ffordd y caiff data eu prosesu. I'r perwyl hwn ac ar ôl ystyried y risgiau i'r hawl hon sy'n gysylltiedig â'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw, mae Heddlu De Cymru wedi mabwysiadu sawl mesur er mwyn sicrhau bod yr hawl i gael eich hysbysu yn cael ei chynnal.

Mae cyhoeddi Hysbysiad Preifatrwydd Heddlu De Cymru, polisi Heddlu De Cymru ar ddiogelu data categori arbennig a data euogfarnau troseddol a Dogfennau allweddol Heddlu sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebu byw ar wefan Heddlu De Cymru yn fesur allweddol. Er nad yw'n ofynnol i Heddlu De Cymru gyhoeddi nifer o'r dogfennau hyn mae wedi dewis gwneud hynny. Mae hwn yn fesur pwysig i roi gwybodaeth i'n cymunedau gan gynnwys y cyhoedd sy'n mynd heibio i dechnoleg adnabod wynebaw byw sy'n cael ei defnyddio a'r rhai a allai gael eu rhoi ar Restr Wyllo er mwn iddynt ddeall y safonau y mae Heddlu De Cymru, fel corff cyhoeddus, yn gweithredu yn unol â nhw. Wrth wneud hynny, mae Heddlu De Cymru yn darparu manylion am y broses awdurdodi a'r gofynion ar gyfer defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw, manylion am ble y gellir defnyddio'r dechnoleg a'r ystyriaethau a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol o ran pwy y gellir ei roi ar Restr Wyllo Rhaglen Adnabod Wynebaw Byw. Fel hyn, gellir rhagweld ac asesu defnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebaw byw. Mae'r dogfennau cyhoeddedig yn darparu gwybodaeth fel y'i nodir yn y tabl isod.

Dogfennau allweddol sydd ar gael i'r cyhoedd	Gwybodaeth a gynhwyswyd
Hysbysiad Preifatrwydd Heddlu De Cymru:	<ul style="list-style-type: none"> • Enw a manylion cyswllt y Rheolydd Data • Manylion y Swyddog Diogelu Data • Cwmpas a dibenion gweithgarwch prosesu data personol gan Heddlu De Cymru • Cyfnodau cadw data • Trefniadau rhannu data • Diogelwch data • Hawliau fel testun data (gan gynnwys yr hawl i weld data, eu cywiro a'u dileu) • Cwynion (gan gynnwys yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a manylion cyswllt)
Polisi Heddlu De Cymru ar ddiogelu data categori arbennig a data euogfarnau troseddol	<ul style="list-style-type: none"> • Dull Heddlu De Cymru o ddiogelu a phrosesu data categori arbennig a data euogfarnau troseddol mewn perthynas â'r egwyddorion diogelu data • Cyfrifoldebau'r Rheolydd Data • Gwybodaeth am ddileu a chadw data • Sut y gellir ceisio rhagor o wybodaeth.
Mandad Cyfreithiol Heddlu De Cymru i Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw	<ul style="list-style-type: none"> • Y sail gyfreithlon dros brosesu data mewn perthynas â thechnoleg adnabod wynebau byw. Gan gynnwys mewn perthynas â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ Pwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin ○ Deddf Hawliau Dynol 1998 ○ Deddf Cydraddoldeb 2010 ○ Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ○ Deddf Diogelu Data 2018 ○ Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Dogfen Bolisi Heddlu De Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Bwriad ac amcanion strategol amlinellol ar gyfer defnyddio technoleg adnabod wynebau byw a'r ffordd y

	<p>caiff data personol eu defnyddio gan y system adnabod wynebau byw</p> <ul style="list-style-type: none"> • Termau allweddol a ddefnyddir yn Nogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw • Cyfnodau cadw data sy'n gymwys i'r system adnabod wynebau byw
<p>Prosesau Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n amlinellu mesurau sy'n berthnasol wrth ystyried pryd a ble y gall Heddlu De Cymru Ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw. • Ystyriaethau o ran Rhestrau Gwylio gan gynnwys ar ba sail y gellir ychwanegu delweddau at Restr Wylïo ac ystyriaethau sy'n berthnasol i ffynonellau delweddau nad ydynt yn dod o'r heddlu. • Mae'n darparu, yn ystod unrhyw ymgyrch gan yr heddlu lle y defnyddir technoleg adnabod wynebau byw, y bydd swyddogion ar gael i ymateb i holiadau gan aelodau o'r cyhoedd, a: <ul style="list-style-type: none"> ○ bod yn rhaid i arwyddion sy'n tynnu sylw at y ffaith bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio gael eu gosod mewn mannau amlwg ymlaen llaw y tu allan i'r Parth Adnabod; ac ○ y dylid cynnig taflen wybodaeth am y dechnoleg fel arfer i unrhyw aelod o'r cyhoedd yr Ymgysylltir ag ef fel rhan o ymgyrch lle mae technoleg adnabod wynebau byw yn cael ei defnyddio. • Bydd y ddau fesur hyn yn hawdd i'w darllen a, gyda'i gilydd, byddant yn sicrhau bod yr unigolion hynny sy'n mynd heibio i'r dechnoleg adnabod wynebau byw/yr Ymgysylltir â nhw yn sgil ei defnyddio yn cael cyfle i geisio rhagor o wybodaeth. Bydd yr arwyddion a'r taflenni yn darparu cod QR a dolen we hygyrch i wefan Heddlu De Cymru i gael rhagor o wybodaeth.
<p>Asesiad Heddlu De Cymru o Effaith Technoleg Adnabod</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n disgrifio natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y gweithgarwch prosesu.

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

Wynebau Byw ar Ddiogelu Data	<ul style="list-style-type: none">• Mae'n asesu rheidrwydd, cymesuredd a mesurau cydymffurfiaeth.• Mae'n nodi ac yn asesu risgiau i unigolion.• Mae'n nodi unrhyw fesurau ychwanegol i liniaru'r risgiau hynny.
Dogfennau Polisi Priodol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw	<ul style="list-style-type: none">• Mae'n esbonio sut y bydd gweithgareddau prosesu data sensitif yn cydymffurfio â'r gofynion yn Rhan 3, adran 42 o Ddeddf Diogelu Data 2018.• Mae'n esbonio sut y caiff data categori arbennig eu prosesu o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data• Mae'n esbonio sut mae Heddlu De Cymru yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith ac egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'n amlinellu polisiâu ar gadw a dileu data personol.